GWASANAETHAU PROFEDIGAETH CAERDYDD

DOGFEN POLISI MYNWENTYDD A'R AMLOSGFA

Dyddiad Gweithredu Ebrill 2008

Dyddiad Adolygu Diwethaf Ebrill 2020

CARDIFF
CAERDYDD

MYNEGAI

1.	Cyflwyniad	4
2.	Cylch Gorchwyl a Diffiniadau	4
3.	Rheolau a Chanllawiau Cyffredinol	6
4.	Rheolau a Chanllawiau ynglŷn â Chladdu	8
4.1	Archebu	8
4.2	Dewis Bedd a Phrynu Hawliau i Gladdu a Hawliau Unigryw i Gladdu	10
4.3	Trosglwyddo Hawl Unigryw i Gladdu	11
4.4	Cynllun o'r Fynwent	12
4.5	Cofrestr Gladdedigaethau	12
4.6	"Beddau Heb Eu Prynu"	13
4.7	Gweithdrefn Gladdu	13
4.8	Paratoi Beddau ac Ôl-lenwi	15
4.9	Beddau Brics, Siambrau a Chladdgelloedd	16
4.10	Claddu Plant Marwanedig a Gweddillion Ffetysau	17
4.11	Clefydau Heintus	17
4.12	Ôl-ofal Beddau	18
4.13	Mathau o Feddau	18
4.14	Cymhwyso'r Rheolau at rai beddau a oedd yn bodoli cyn i'r Ddogfen Bolisi ddod i rym	18
5.	Rheolau a Chanllawiau Amlosgi a'r Amlosgfa	23
5.2	Archebu a Cheisiadau	23
5.3	Yr hawl i'r ymgeisydd archwilio'r ffurflenni meddygol	23
5.4	Capeli a Gwasanaethau	24
5.5	Gweithdrefn Amlosgi	25
6.	Rheolau a Chanllawiau ynglŷn â Chofebion	29
6.1	Cais am Drwydded i osod Cofeb ar Fedd	29
6.2	Gosod Cofebion	30
6.3	Oriau Gweithredol ar gyfer Gwaith ar Gofebion	31
6.4	Cyfnod Gwarantu Sadrwydd	31
6.5	Profi Diogelwch Cofebion	31
6.6	Mathau o Gofebion	32

6.7 Deunyddiau 34

6.8 Cofebion Anawdurdodedig 35

7. Gerddi Coffa 35

8. Gerddi Coed Coffa 36

9. Blodeugedau, Gwastraff ac Ailgylchu 36

Atodlen 1 37

1. Cyflwyniad

Diben y Ddogfen Bolisi hon yw rhagosod rheolau mewnol Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd sy'n berthnasol i ddarparu'r gwasanaethau profedigaeth a chynnig canllaw defnyddiol i aelodau o'r cyhoedd sydd angen y cyfryw wasanaethau.

Dylid sylwi nad yw'r nodiadau esboniadol a ragosodir yn y ddogfen bolisi hon yn ffurfio rhan o'r Rheolau ond maent wedi'u mewnosod yn y Ddogfen Bolisi mewn italig er mwyn egluro'r darpariaethau a'r rhesymau dros y Rheolau.

Gwerthir pob bedd a chladdgell yn amodol ar y Rheolau a ragosodir yn y Ddogfen Bolisi hon (y gall y Cyngor eu newid o bryd i'w gilydd), ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth statudol ynglŷn ag 1) darparu'r gwasanaethau a 2) rheoli a rheoleiddio mynwentydd ac amlosgfeydd sy'n eiddo i'r Cyngor a/neu sy'n cael eu rheoli ganddo ac a gyhoeddir gan y llywodraeth ganolog, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw awdurdod cymwys arall y mae'r Cyngor o dan rwymedigaeth i gydymffurfio ag ef.

Mae'r Rheolau hyn yn berthnasol drwyddi draw i bob mynwent neu amlosgfa sy'n eiddo i'r Cyngor neu sy'n cael eu rheoli ganddo.

Os bydd unrhyw ymholiadau gan rywun mewn cysylltiad â'r Rheolau a'r canllawiau a ragosodir yn y Ddogfen Bolisi hon, yn y lle cyntaf dylent gysylltu â'r Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) yn y Swyddfa Weinyddol. Ymdrinnir ag unrhyw gwynion yn unol â Pholisi Cwynion Corfforaethol y Cyngor.

2. Cylch Gorchwyl a Diffiniadau

Yn y Ddogfen Bolisi hon, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd gan y termau canlynol yr ystyron a roddir iddynt isod:

Ystyr "y Cyngor" yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

Ystyr "Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd" yw adran Gwasanaethau Profedigaeth y Cyngor;

Ystyr "Mynwent, Mynwentydd neu Safle" yw safle unrhyw fynwent neu amlosgfa sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael ei reoli ganddo ar hyn o bryd.

Ystyr "Capel" yw'r capeli a leolir yn yr Amlosgfa

Ystyr "Rheoliadau Amlosgi 2008" yw Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

Ystyr "Amlosgfa" yw unrhyw safle amlosgfa sy'n eiddo i'r Cyngor neu sy'n cael ei reoli ganddo ar hyn o bryd

Ystyr "Dirprwy Ddyfarnwr Meddygol" yw'r dirprwy ddyfarnwr meddygol a benodir i'r Cyngor yn ei rinwedd fel awdurdod amlosgi

Ystyr "Hawl Unigryw i Gladdu" yw hawl unigryw i gladdu'n unol â Rheol 4.2.3

Ystyr “Bedd Lawnt” yw bedd sydd wedi’i droi yn lawnt yn bennaf ac sy’n cydymffurfio â Rheolau 4.13.2

Ystyr “Dyfarnwr Meddygol” yw’r dyfarnwr meddygol a benodir i’r Cyngor wrth weithredu yn ei rinwedd fel awdurdod amlosgi, a bydd yn cynnwys y Dirprwy Ddyfarnwr Meddygol sy’n gweithredu yn absenoldeb y Dyfarnwr Meddygol.

Ystyr “Cofeb” yw gwrthrych coffa ac sydd, at ddibenion y rheolau hyn, yn cynnwys carreg fedd, croes, cwrb, llwyfan, ymylon, cerrig mân, ffiol, coflech wastad, beddnodau pren, beddnodau dros dro a’r cofebion hynny a ganiateir o dan Reol 6

Ystyr “Rheolau Cofebion” yw’r rheolau hynny a ragosodir o dan Reol 6 y Ddogfen Bolisi hon

Ystyr ”Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth)” yw rheolwr gweithredol Gwasanaethau Profedigaeth ac mae’n cynnwys ei dd/dirprwyon, ei g/chynorthwy-wyr a/neu’i g/chynrychiolydd.

Ystyr “Dogfen Bolisi ” yw’r ddogfen hon sy’n rhagosod y Rheolau

Ystyr “Cofrestr Gladdedigaethau” yw cofrestr o bob claddedigaeth mewn Mynwent sy’n cael ei chynnal a’i chadw gan y Cyngor

Ystyr “Rheolau” yw rheolau mewnol Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd a ragosodir yn y Ddogfen Bolisi hon.

Ystyr “Hawl i Gladdu” yw hawl i gladdu a roddir yn unol â Rheol 4.2.2

Ystyr “Bedd Hanner Lawnt” yw bedd sy’n cael ei ymylu gan gyrbau a osodir ar lefel y ddaear ac sy’n cydymffurfio â Rheol 4.13.3.

Ystyr “Tabl Ffioedd” yw rhestr o ffioedd a thaliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd

Ystyr “y Swyddfa Weinyddol” yw’r swyddfa weinyddol yn Swyddfa’r Fynwent, Thornhill Road, Caerdydd, CF14 9UA

Ystyr “Bedd Traddodiadol” yw bedd sy’n cael ei ymylu gan gyrbau wedi’u codi ac sy’n cydymffurfio â Rheolau 4.13.4

Ystyr “Bedd Coetir” yw bedd neu ofod i fedd mewn coetir neilltuedig yn y Fynwent ac sy’n cydymffurfio â Rheol 4.13.5

Ystyr “Diwrnod Gwaith” yw’r oriau rhwng 9.00am a 5.00pm ddydd Llun i ddydd Gwener yn gynhwysol ond nid yw’n cynnwys gwyliau banc, gwyliau cyhoeddus na diwrnodau statudol y Cyngor (gellir darparu copi o ddiwrnodau statudol y Cyngor ar gais).

3. Rheolau a Chanllawiau Cyffredinol

3.1 Ar wahân i'r hyn a ragosodir i'r gwrthwyneb yn y Ddogfen Bolisi hon neu o dan amgylchiadau eithriadol, mae oriau agor a chau'r Mynwentydd ar ddangos wrth fynedfeydd pob safle ac maent fel a ganlyn:

EBRILL i FEDI		HYDREF A MAWRTH		TACHWEDD A CHWEFROR		RHAGFYR AC IONAWR	
Ddydd Llun i ddydd Gwener	Penwythnosau a Gwyliau Banc	Ddydd Llun i ddydd Gwener	Penwythnosau a Gwyliau Banc	Ddydd Llun i ddydd Gwener	Penwythnosau a Gwyliau Banc	Ddydd Llun i ddydd Gwener	Penwythnosau a Gwyliau Banc
THORNHILL 9am - 7pm	10am - 7pm	9am - 6pm	10am - 6pm	9am - 5pm	10am - 4.30 pm	9am - 5pm	10am - 4pm
CATHAYS 9am - 6pm	10am - 6pm	9am - 5pm	10am - 5pm	9am - 5pm	10am - 4.30pm	9am - 5pm	10am - 4pm
Y GORLLEWIN 9am - 6pm	10am - 6pm	9am - 5pm	10am - 5pm	9am - 5pm	10am - 4.30pm	9am - 5pm	10am - 4pm
PANT-MAWR 9.30am - 6pm	9.30am - 6pm	9.30am-4.30pm	9.30am-4.30pm	9.30am-4.30pm	9.30am-4.00pm	9.30am-4.30pm	9.30am-3.30pm

3.2 Ni ddylid masnachu unrhyw nwyddau na gwasanaethau o fewn unrhyw un o'r Mynwentydd ac eithrio â chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth)
I helpu amddiffyn hawliau ymwelwyr fel defnyddwyr ac i sicrhau bod galarwyr yn gallu ymweld â'r mynwentydd heb fod rhywun yn tarfu arnynt.

3.3 Ni chaniateir anifeiliaid mewn unrhyw Fynwent ac eithrio cŵn cymorth a cheffylau sy'n ffurfio rhan o gynhebrwng.
Nid yw pob un o'n hymwelwyr yn teimlo mai amgylchedd addas i anifeiliaid anwes yw mynwentydd.

3.4 Y terfyn cyflymder uchaf sydd mewn grym ym mhob un o'r Safleoedd yw 10 milltir yr awr.
Mae hyn yn helpu diogelu ymwelwyr eraill a'n staff.

3.5 Rhaid i gerbydau beidio â gadael unrhyw ffordd yn y Mynwentydd ac eithrio â chaniatâd y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth)
Mae hyn yn amddiffyn ein tiroedd a'n hadrannau claddu rhag difrod diangen gan osgoi'r angen am waith adfer ac atal gofid ychwanegol i deuluoedd eraill.

3.6 Rhaid i bob cynhebrwng fod wrth giatiau prif fynedfa'r safle lle y mae'r angladd wedi'i drefnu erbyn yr amser penodedig a ragarchebwyd.
Mae'n hanfodol bod cynhebryngau'n cyrraedd y Fynwent a'r Amlosgfa ar amser i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n effeithlon.

3.7 Tra byddant yn y Fynwent neu'r Amlosgfa, bydd pob cynhebrwng o dan reolaeth y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) ac mae'n rhaid i bob hers a cherbydau cysylltiedig gael eu gyrru i'r rhannau hynny o'r safleoedd yn ôl ei gyfarwyddyd.
Y staff ar y safle fydd yn gyfrifol am y gladdedigaeth a sicrhau bod y cynhebrwng yn cyrraedd y lleoliad cywir. Bydd y trefnydd angladdau neu unigolyn penodedig arall yn cydweithio â'r staff ar y safle i sicrhau y cwblheir yr angladd mewn modd urddasol a pharchus.

3.8 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wahardd o'r Safle unrhyw unigolion nad ydynt yn alarwyr nac yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag angladd yn y Fynwent neu'r Amlosgfa. Gall hawl o'r fath gael ei harfer gan y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) ar ran y Cyngor.
Mewn rhai achosion gall fod angen cau'r Safleoedd i ymwelwyr oherwydd angladd sy'n eithriadol o fawr neu ar gais yr heddlu neu awdurdod arall.

3.9 Pan roddir hysbysiad am gladdedigaeth neu amlosgi a lle y rhagwelir bod yr angladd yn un lle y gellir disgwyl i nifer mawr o bobl ymgynnull, dylai'r ymgeisydd neu ei g/chynrychiolydd hysbysu'r Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) yn unol â hynny.
Os rhoddir hysbysiad y bydd nifer mawr yn bresennol, gellir rhoi mesurau yn eu lle gan y staff i sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn cael ei amharu na'i darfu arno mewn unrhyw ffordd.

3.10 Os ceir unrhyw ddifrod i dir, waliau neu adeiladau'r Mynwentydd trwy unrhyw achos o gwbl, yr unigolyn neu'r bobl sy'n achosi'r cyfryw ddifrod a ddelir yn gyfrifol gan y Cyngor.
Bydd y gwasanaeth bob amser yn ceisio adennill costau llawn am unrhyw ddifrod a achosir gan ymwelwyr er mwyn diogelu'r cyllidebau sydd ar gael at gynnal a chadw a gwella'r gwasanaeth.

3.11 Ni chaniateir unrhyw dynnu lluniau na ffilmio yn y Fynwent ac eithrio â chydsyniad y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth). Fodd bynnag, caiff teuluoedd neu gynrychiolydd teulu dynnu llun o gofeb unigol.
Gall rhai ymwelwyr gael eu pechu trwy gael eu ffilmio neu eu llun wedi'i dynnu yn y mynwentydd neu wrth fynychu angladdau.

3.12 Ni chaniateir i weithwyr y Cyngor gyflawni unrhyw waith preifat o gwbl yn unrhyw un o'r Mynwentydd.
Ni chaniateir i staff yn y Gwasanaethau Profedigaeth dderbyn unrhyw fath o dâl nac arian rhodd gan aelodau'r cyhoedd. Os oes angen unrhyw waith arnoch yn y Mynwentydd cysylltwch â'r Swyddfa Weinyddol lle y bydd ein staff yn falch o roi'r wybodaeth berthnasol i chi.

3.13 Ni ddylid chwarae unrhyw gerddoriaeth (naill ai'n fyw neu wedi'i recordio) yn y Mynwentydd gan unrhyw un ac eithrio â chaniatâd y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth).
Gall cerddoriaeth darfu ar ymwelwyr eraill â'r Mynwentydd. Fel arfer, caniateir cerddoriaeth i fynd gyda gwasanaeth angladd.

3.14 Rhaid rhoi blodau neu dorchau sydd wedi darfod neu eitemau gwastraff neu sbwriel eraill yn y cynwysyddion priodol a ddarperir trwy'r Mynwentydd i gyd. Gall unrhyw eitemau blodeuog sydd wedi gwywo a geir yn unrhyw rhan o'r mynwentydd gael eu symud ymaith heb rybudd gan staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd.
Mar hyn y gadael i'n staff gadw ardaloedd y mynwentydd a'r amlosgfeydd yn daclus ar gyfer ein hymwelwyr.

3.15 Rhaid i bob unigolyn gymryd pob gofal rhesymol er mwyn eu diogelu eu hunain yn y Mynwentydd.

3.16 Rhaid i ymwelwyr ymddwyn mewn modd tawel a threfnus a chadw at y ffyrdd a'r llwybrau, ac eithrio pan fyddant yn ymweld â beddau.
Mae hyn yn sicrhau y defnyddir tiroedd y Mynwentydd a'r Amlosgfa mewn modd a ddisgwylir oddi wrth ein hymwelwyr.

3.17 Bydd pob unigolyn sy'n cael mynediad i unrhyw un o'r Mynwentydd neu'r Amlosgfa'n ddarostyngedig i'r Rheolau a ragosodir yn y Ddogfen Bolisi hon. Gall unrhyw un sy'n torri'r Rheoliadau gael ei symud ymaith o'r Fynwent gan un o aelodau staff Gwasanaethu Profedigaeth Caerdydd.

3.18 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud unrhyw newidiadau i'r Rheolau yn ôl y gofyn
Wrth i'r gwasanaeth newid a gwella efallai y bydd angen diwygio'r rheoliadau cyfredol yn unol â hynny neu ar fyr rybudd. Lle bynnag y bo modd pan fydd hyn yn digwydd, bydd y Gwasanaethau Profedigaeth yn cymryd pob cam rhesymol i hysbysu'r rheini yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau.

4. Rheolau a Chanllawiau ynglŷn â Chladdu

4.1 Archebu

4.1.1 Rhaid i'r holl archebion ar gyfer claddedigaeth mewn unrhyw Fynwent (gan gynnwys claddu gweddillion amlosgi) gael eu gwneud, yn y lle cyntaf, drwy'r Swyddfa Weinyddol naill ai ar y ffôn neu wyneb yn wyneb a'u cadarnhau'n ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny, gan ddefnyddio ffurflen benodedig y Cyngor y cyfeirir ati yn 4.1.2 isod.
Mae hyn yn sicrhau y gellir dilyn ein holl brosesau a gweithdrefnau perthnasol i leihau unrhyw broblemau a all godi.

4.1.2 Ar gyfer pob claddedigaeth rhaid i hysbysiad am gladdedigaeth gyrraedd y Swyddfa Weinyddol ar Ddiwrnod Gwaith (ac eithrio claddedigaethau sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn gladdu 'y tu allan i oriau' fel y cyfeirir ati yn Rheol 4.1.9) ac fel a ganlyn:

a) yn achos claddedigaeth mewn unrhyw fedd (ac eithrio y gladdedigaeth gyntaf mewn bedd muriog) erbyn 9.30am o leiaf ddau (2) Ddiwrnod Gwaith cyn y gladdedigaeth;

b) yn achos adeiladu bedd muriog, siambr neu gladdgell, erbyn 9.30am o leiaf dri (3) Diwrnod Gwaith cyn y gladdedigaeth.

Mae hyn yn sicrhau bod staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn derbyn digon o rybudd i gloddio bedd ar gyfer claddedigaeth.

4.1.3 Yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth), gellir darparu claddedigaeth ar rybudd sy'n fyrrach na'r hyn a nodir yn Rheol 4.1.2:

a. yn achos argyfwng a ardystir gan ymarferydd meddygol; neu

b. ar gyfer y rheini y mae claddu'n ofynnol iddynt oherwydd anghenion diwylliannol; mewn achos o'r fath bydd y gladdedigaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gladdu gytûn ar gyfer 'y tu allan i oriau'

Dylid sylwi bod claddedigaethau a drefnir ar fyr rybudd yn ddarostyngedig i dalu'r ffi neu'r tâl ychwanegol a nodir yn y Tabl Ffioedd

Bydd Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn ceisio, lle bynnag y bo modd, hwyluso claddedigaethau ar unrhyw adeg ar yr amod bod yr holl ddogfennaeth statudol yn ei lle ond mae hyn yn ddibynnol ar argaeledd staff i ymgymryd â'r gwirio angenrheidiol a'r gwaith paratoadol.

4.1.4 Ni roddir hysbysiad am gladdedigaeth ond ar y ffurflen a ddarperir gan y Cyngor a dylai'r unigolyn sy'n gwneud cais am y gladdedigaeth gwblhau'r cyfryw ffurflen a'i llofnodi.
Gofyniad statudol yw na chaiff claddedigaeth ddigwydd heb ganiatâd yr awdurdod claddu.

4.1.5 Ni chaniateir unrhyw newid i hysbysiad am gladdedigaeth oni bai 1) bod cais ysgrifenedig am unrhyw newid o'r fath wedi'i gyflwyno i'r Swyddfa Weinyddol a 2) y cytunir ar y cyfryw newid gan y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth).
Dim ond newidiadau i drefniadau sy'n ysgrifenedig y gellir eu derbyn cyn dyddiad y gladdedigaeth; mae hyn yn sicrhau na fydd unrhyw gamddealltwriaeth yn sgil newidiadau sy'n eiriol yn unig.

4.1.6 Bydd yr holl ffioedd a thaliadau ynglŷn â chladdedigaeth yn cael eu hanfonebu ar adeg cofrestru'r hysbysiad am y gladdedigaeth. Codir yr anfoneb yn erbyn yr un sy'n cyflwyno'r cais.

O dan amgylchiadau arferol, y Trefnydd Angladdau sy'n gweithredu ar ran y galarwyr fydd hwn. Hefyd, gall yr ymgeisydd am y gladdedigaeth dalu ffioedd yn uniongyrchol i'r Swyddfa Weinyddol.

4.1.7 Bydd yr un sy'n gyfrifol am y gladdedigaeth yn gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol gyda'r gweinidog neu'r unigolyn arall y bwriedir iddynt weinyddu yn yr angladd, gan gynnwys talu ffi'r gweinidog.
Nid yw Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn darparu gweinidog nac yn gweinyddu fel rhan o'u cylch gwaith.

4.1.8 Yn amodol ar dalu'r ffi briodol, gellir archebu'r Capel yn Amlosgfa Thornhill i gynnal gwasanaeth claddu cyn claddedigaeth yn unrhyw un o'r Mynwentydd.
Cynllunnir y capeli yn Thornhill i fod yn rhyngenwadol a gellir symud unrhyw arteffactau crefyddol i ffwrdd o'r capeli os bydd angen. Gellir newid y cynllun eistedd os bydd angen i gydymffurfio â dymuniadau'r teulu.

4.1.9 Mae Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn cynnig gweithdrefn gladdu 'y tu allan i oriau' i'r rheini sydd angen claddedigaeth y tu allan i oriau gweithredu arferol a/neu o fewn cyfnod byrrach na'r un y cyfeirir ato o dan Reol 4.1.2, fel rhan o unrhyw ofynion diwylliannol. Ceir manylion am y weithdrefn hon, gan gynnwys amserlenni, ar gais gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd.

4.2 Dewis Bedd a Phrynu Hawliau Unigryw i Gladdu

4.2.1 Gall Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd, yn unol â'r telerau a'r amodau y maent yn eu hystyried yn briodol, roi Hawl Unigryw i Gladdu i unrhyw unigolyn. Gellir gwneud ymholiadau ynglŷn â hawliau o'r fath yn y Swyddfa Weinyddol.

4.2.2 Hawl Unigryw i Gladdu

4.2.3.1 Mae Hawl Unigryw i Gladdu'n caniatáu claddedigaeth mewn gofod bedd y cytunir arno i brynwr y cyfryw hawl. Ni ellir agor bedd sy'n ddarostyngedig i Hawl Unigryw i Gladdu ac ni chaiff neb gael ei gladdu yno heb ganiatâd y perchennog (ac eithrio lle y mae darpariaethau Rheol 4.3 yn berthnasol).
Mae gan yr un sy'n prynu'r bedd hawl i ddewis gofod bedd cyn y gladdedigaeth yn amodol ar wneud apwyntiad â'r swyddfa weinyddol.

4.2.3.2 Gellir rhoi Hawl Unigryw i Gladdu am gyfnod sydd heb fod dros 100 mlynedd, gan ddechrau â'r dyddiad pryd y rhoir y caniatâd ac ar ba delerau ac amodau bynnag yr ystyrir yn briodol gan y Cyngor. Gall y Cyngor estyn cyfnod caniatâd o'r fath am hyd at 100 mlynedd o'r dyddiad pryd y rhoir caniatâd am yr estyniad. Mae'r ffi am Hawl Unigryw i Gladdu wedi'i rhagosod yn y Tabl Ffioedd.
O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, ni ellir caniatáu Hawl Unigryw i Gladdu ond am gyfnod amser penodol.

4.2.3.3 Nid yw Hawl Unigryw i Gladdu'n gyfwerth ag unrhyw berchenogaeth ar dir. Dim ond yr hawl i gael claddedigaeth mewn bedd o'ch dewis yw hi.

Rhoir yr hawliau ar y ddealltwriaeth y bydd perchennog yr hawliau hynny'n cydymffurfio â'r Rheolau a ragosodir yn y Ddogfen Bolisi hon, yn arbennig unrhyw Reolau o'r fath sy'n berthnasol i'r math arbennig o fedd a/neu gofeb y mae'r Hawl Unigryw i Gladdu'n gysylltiedig â nhw. Er enghraifft, os rhoddir Hawl Unigryw i Gladdu ynglŷn â Bedd Lawnt, bydd angen i ddeiliad y caniatâd gydymffurfio â'r Rheolau sy'n berthnasol yn benodol i Feddau Lawnt.

Nid yw prynu hawliau i gladdu mewn unrhyw ffordd yn gyfwerth â phrynu'r tir lle y mae'r bedd yn gorwedd. Mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn ymwybodol mai ar sail les y gwerthir y bedd a'r unig hawliau â'r les honno yw'r hawliau i gladdu yn y bedd ac i osod cofeb wedyn.

4.2.3.3 Ar ôl prynu Hawl Unigryw i Gladdu rhoddir gweithred grant i'r unigolyn y prynir y cyfryw Hawl Unigryw i Gladdu ganddo neu ar ei ran.

4.2.3.4 Mae prynu Hawl Unigryw i Gladdu mewn unrhyw fedd yn cynnwys yr hawl i godi a chynnal cofeb ar y gofod bedd hwnnw'n amodol ar y rheoliadau ynglŷn â cofebion a ragosodir o dan Reol 6.

Mae hyn yn caniatáu i gofeb gael ei gosod ar fedd heb fod angen i hawliau ychwanegol gael eu rhoi.

4.2.3.5 Caiff deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu ildio ei hawl ar unrhyw adeg ynglŷn â'r bedd neu'r gofod bedd lle nad yw'r cyfryw hawl wedi'i harfer (hy, lle nad oes unrhyw gladdedigaeth wedi digwydd a/neu le nad oes unrhyw gofeb wedi'i gosod ar y bedd). Ym mhob achos, y ffi ad-daladwy fydd y ffi wreiddiol a dalwyd i brynu'r Hawl Unigryw i Gladdu.
Mae rhai pobl yn prynu bedd ymlaen llaw ond yn penderfynu yn nes ymlaen nad oes ei angen bellach. Gan fod y bedd heb ei ddefnyddio caiff y Cyngor werthu'r hawl i gladdu i rywun arall.

4.3 Trosglwyddo Hawl Unigryw i Gladdu

4.3.1 Caiff Hawl Unigryw i Gladdu gael ei throsglwyddo trwy weithred neu'i chymynroddi mewn ewyllys.

4.3.2 Mewn achosion lle y mae perchennog yr Hawl Unigryw i Gladdu ("deiliad y grant") yn dal i fyw gellir trosglwyddo'r hawl trwy gwblhau Gweithred Aseiniad. Mae Gweithred Aseiniad ar gael gan y Swyddfa Weinyddol. Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau a'i llofnodi gan ddeiliad y grant a'r un sy'n cymryd perchenogaeth ar y cyfryw hawl a'i chyflwyno i'r Swyddfa Weinyddol ynghyd â'r weithred Grant wreiddiol. Rhoddir Gweithred Grant newydd i ddeiliad newydd yr hawl ddywededig. Mae ffi, fel a ragosodir yn y Tabl Ffioedd, ynglŷn â'r gwasanaeth hwn yn daladwy i Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd.
Dyma'r ffordd gyfreithiol gydnabyddedig o drosglwyddo hawliau bedd lle y mae deiliad y grant yn dal i fyw.

4.3.3. Lle y mae deiliad y grant wedi marw, ac ar yr amod nad yw'r Hawl Unigryw i Gladdu wedi'i gadael yn benodol i rywun arall, yna ar ôl dangos ewyllys neu lythyrau gweinyddu gellir trosglwyddo'r Hawl Unigryw i Gladdu'n gyfreithiol i'r un sydd â meddiant y Llythyrau Gweinyddu neu i fuddiolwr gweddill yr ystad o dan delerau ewyllys deiliad y grant.
Mae'r hawliau i gladdu'n ffurfio rhan o ystad yr ymadawedig ac felly gellir eu trosglwyddo i'r unigolyn priodol ar ôl i brawf gael ei gyflwyno i Swyddfa Weinyddol y Gwasanaethau Profedigaeth.

4.3.4 Mewn achosion lle y mae deiliad y grant wedi marw ac nad oes ewyllys na Llythyrau Gweinyddu ar gael, ni ellir trosglwyddo'r Hawl Unigryw i Gladdu i rywun arall. Fodd bynnag, efallai y caniateir claddedigaeth bellach yng ngofod y bedd (os oes digon o ddyfnder ar gael), yn amodol ar yr ymgeisydd am y gladdedigaeth yn cwblhau Datganiad Statudol gan sicrhau bod unrhyw un arall sydd â'r un hawl yn cydlofnodi'r Datganiad Statudol. Rhaid i ddatganiad statudol gael ei ardystio gan Gyfreithiwr neu Gomisiynydd Llwon.
Mae hon yn ffordd o ddelio â'r mater hwn sy'n cael ei chydnabod yn gyfreithiol.

4.4 Cynllun o'r Fynwent

4.4.1 Yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol mae'r Cyngor yn cynnal a chadw cynlluniau a ddengys yr holl ofodau bedd sydd wedi'u defnyddio a'r beddau neu'r gofodau bedd hynny a chanddynt hawliau arbennig (hy, Hawl Unigryw i Gladdu). Cedwir cynlluniau o'r fath yn y Mynwentydd ac maent ar gael i'w harchwilio'n ddi-dâl ar unrhyw Ddiwrnod Gwaith.
Gofyniad cyfreithiol yw hwn yn ogystal â bod yn un o ofynion gweithredol y gwasanaeth.

4.5 Cofrestr Gladdedigaethau

4.5.1 Cofnodir pob claddedigaeth sy'n digwydd yn y Mynwentydd mewn Cofrestr Gladdedigaethau, un i bob Mynwent. Cedwir y Cofrestrau Claddedigaethau yn y Swyddfa Weinyddol ac maent ar gael i'w harchwilio trwy apwyntiad ar unrhyw Ddiwrnod Gwaith yn y Swyddfa Weinyddol gan unrhyw unigolyn a hynny'n ddi-dâl.

4.5.2 Os ceir cais, mae'r Gofrestr Gladdedigaethau'n gallu cael ei chwilio gan aelod o Wasanaethau Profedigaethau Caerdydd a darperir copi ardystiedig o gofnod neu gofnodion ynglŷn ag unrhyw ofod bedd neu gladdedigaeth yn y Gofrestr Gladdedigaethau. Mae ffi'n daladwy am y gwasanaeth hwn yn unol â'r Tabl Ffioedd.
Rhwymedigaeth gyfreithiol yr Awdurdod Claddu yw hon i gynnal a chadw cofnodion o gladdedigaethau yn y Mynwentydd. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn caniatáu i'r Cyngor godi ffi am chwilio'r Gofrestr Gladdedigaethau a darparu copïau ardystiedig o gofnodion yn y cyfryw gofrestr.

4.6 "Beddau Heb Eu Prynu"

4.6.1 Nid yw'r tâl am gladdedigaeth mewn bedd lle nad yw'r Hawl Unigryw i Gladdu wedi'i phrynu'n cynnwys unrhyw hawl na braint ynglŷn â'r gofod bedd.
Dyma'r hyn a elwir yn fedd cyhoeddus ac ni chaniateir unrhyw gofebion oni bai bod yr hawl i gladdu'n cael ei phrynu. Caiff unrhyw un wneud cais i gladdu mewn bedd sydd heb ei brynu a dim ond y ffi gladdu y byddent yn gorfod ei thalu fel a ragosodir yn y Tabl Ffioedd. Fodd bynnag, dylid sylwi y gall claddedigaethau eraill nad ydynt yn gysylltiedig ddigwydd yn yr un bedd ac ni chaniateir unrhyw garreg goffa na chofeb arall ar y bedd.

4.7 Gweithdrefn Gladdu

4.7.1 Cyn y gellir agor gofod bedd sy'n ddarostyngedig i Hawl Unigryw i Gladdu, rhaid cyflwyno cydsyniad ysgrifenedig perchennog yr Hawl Unigryw i Gladdu, neu eu cynrychiolydd cyfreithiol, i Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn y Swyddfa Weinyddol ynghyd â'r Weithred Grant wreiddiol. Os yw'r Weithred Grant wreiddiol wedi'i cholli, bydd angen Datganiad Ar Lw ynglŷn â cholli'r Weithred Grant wreiddiol.
Rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon mai'r un sy'n gofyn am y gladdedigaeth yw'r un sydd â hawl gyfreithiol i'r Hawl Unigryw i Gladdu.

4.7.2 Mewn achosion lle mai'r un y bwriedir ei gladdu oedd perchennog yr Hawl Unigryw i Gladdu'n union cyn ei farwolaeth, mae gan y Cyngor, os bydd cais gan yr un sy'n rhoi hysbysiad am gladdedigaeth, y pŵer i orchymyn bod y gofod bedd yn cael ei ailagor i gladdu'r perchennog ymadawedig heb gael cydsyniad ei (h)ysgutor neu gynrychiolydd arall.
Mae gan berchennog cofrestredig y bedd hawl gyfreithiol i gael ei gladdu mewn unrhyw ofod bedd y mae ganddynt hawl iddo.

4.7.3 Dylai pob corff a ddygir i'r Mynwentydd i'w gladdu fod mewn arch neu amdo addas ar batrwm y cytunir arno â Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd. Rhaid i'r holl gweddillion amlosgi gael eu dal mewn cynhwysydd addas. Rhaid bod yr arch neu'r cynhwysydd wedi'u

marcio'n glir at ddibenion adnabod gan gynnwys enw llawn ac oedran yr ymadawedig.
Er mwyn rhoi'r parch priodol i'r ymadawedig a hefyd atal y gofid y gellir ei achosi i ymwelwyr eraill neu staff, mae'n hanfodol bod corff yr ymadawedig wedi'i orchuddio'n iawn. Ni dderbynnir gweddillion amlosgi ond mewn cynhwysydd addas cyn cael eu claddu neu'u gwasgaru ar y tiroedd.

4.7.4 Caniateir claddedigaethau fel a ganlyn:

Mis Chwefror i fis Hydref
Rhwng 9.30am a 3.30pm ddydd Llun i ddydd Iau bob awr
Rhwng 9.30am a 2.30pm ar ddydd Gwener bob awr

Mis Tachwedd i fis Ionawr
Rhwng 9.30am a 2.30pm ddydd Llun i ddydd Iau bob awr
Rhwng 9.30am a 2.30pm ar ddydd Gwener bob awr

Gan eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus a diwrnodau statudol y Cyngor

Mae'n hanfodol y cynigir amserau penodedig ar gyfer claddedigaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n esmwyth.

4.7.5 Pan fydd claddedigaethau'n cael eu caniatáu ar wahân i unrhyw un o'r diwrnodau ac amserau uchod byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gladdu 'y tu allan i oriau', fel y cyfeirir ato yn Rheol 4.1.9, ac yn cael eu trefnu am naill ai 2.00pm neu 3.00pm ar y diwrnod gofynnol. Bydd ffi ychwanegol am unrhyw gladdedigaethau 'y tu allan i oriau' hefyd yn cael ei chodi'n unol â'r ffioedd a ragosodir yn y Tabl Ffioedd. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) gellir cyflwyno amserau gwasanaethau ychwanegol o dan amgylchiadau eithriadol.
Mae'n hanfodol y cynigir amserau penodedig ar gyfer claddedigaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n esmwyth.

4.7.6 Cyn i'r gladdedigaeth ddigwydd, rhaid i Dystysgrif Waredu'r Cofrestrydd neu Orchymyn Claddu'r Crwner gael eu cyflwyno i'r Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) neu'i gynrychiolydd, oni bai bod yr un sydd wedi trefnu'r gladdedigaeth yn gallu darparu datganiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi ar y ffurf benodedig sy'n cadarnhau bod Tystysgrif Waredu'r Cofrestrydd neu Orchymyn Claddu'r Crwner wedi'u cyhoeddi a'r rheswm pam nad all y cyfryw ddogfen gael ei rhoi i'r Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth). Rhaid cyflwyno'r datganiad hwn neu'r dystysgrif berthnasol cyn i'r gladdedigaeth ddigwydd.
Dogfennau cyfreithiol yw'r rhain y mae'n rhaid eu cyflwyno cyn i'r gladdedigaeth gael digwydd.
Os rhoddir rheswm dilys am absenoldeb y dogfen(nau) uchod ac ar ôl cadarnhau gyda gwasanaeth y Cofrestrydd mae modd hwyluso claddedigaeth ar ôl cwblhau datganiad safonol sydd ar gael o'r

swyddfa weinyddol. Mae hyn yn sicrhau y caiff angladd ddal i fynd yn ei flaen gan leihau unrhyw ofid i deulu'r ymadawedig.

4.7.7 Bydd un o aelodau staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn cwrdd â phob cynhebrwng. Ni chaiff unrhyw gladdedigaeth fynd rhagddi oni bai bod aelod staff o'r fath yn ei hebrwng. Bydd y plât enw'n cael ei wirio'n erbyn y gwaith papur statudol cyn i unrhyw gladdedigaeth gael ei chaniatáu.
Mae hyn yn sicrhau bod yr arch gywir yn cael ei chladdu yn y bedd cywir.

4.7.8 Bydd yr un sy'n trefnu'r angladd neu'i g/chynrychiolydd yn sicrhau bod digon o bobl ganddynt i drosglwyddo'r arch o'r cerbyd i lan y bedd a gollwng yr arch i mewn i'r bedd. Ym mhob achos ni ddylai y nifer fod yn llai na 4 unigolyn ar gyfer claddu oedolyn.
Cyfrifoldeb y trefnydd angladdau neu'r un sy'n gwneud y trefniadau'r angladd yw sicrhau bod digon o bobl yn bresennol i drosglwyddo'r arch o'r hers/cerbyd i lan y bedd a gollwng yr arch i waelod y bedd.

4.8 Paratoi Beddau ac Ôl-lenwi

4.8.1 Ac eithrio pan fydd darpariaethau Rheol 4.8.8 yn berthnasol, staff y Cyngor yn unig, sy'n cael eu hyfforddi yn ôl safon gydnabyddedig ac achrededig, neu gontractwyr a benodir gan y Cyngor a fydd yn ymgymryd â'r holl waith cloddio ac ôl-lenwi beddau.
Mae Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn cyflogi staff cymwys a chymwysedig i gloddio beddau. Fel mater lechyd a Diogelwch nid yw'n bosibl caniatáu i unrhyw unigolyn arall gloddio unrhyw ofod bedd yn y Mynwentydd.

4.8.2 Bydd gofodau bedd yn y Fynwent yn unol â'r mesuriadau canlynol:-
Gofod bedd llawn i oedolyn - Uchafswm o 10 troedfedd o hyd wrth 4 troedfedd o led.
Er mwyn cynllunio'r Mynwentydd yn effeithiol mae angen darparu uchafswm dimensiwn i bob gofod bedd. Os bydd angen gofod bedd sy'n fwy, dylid cyflwyno cais i Reolwr Gweithredol y Gwasanaethau Profedigaeth.

4.8.3 Bydd beddau'n cael eu cloddio hyd at uchafswm dyfnder o:
8'6" ar gyfer 3 claddedigaeth
6'6" ar gyfer 2 gladdedigaeth
4'6" ar gyfer 1 gladdedigaeth.
Mae hyn er mwyn i'r Cyngor allu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol yn y cyswllt hwn.

4.8.4 Bydd lleoliad y pen a'r traed mewn gofod bedd ym mhob Mynwent fel a ddynodir gan y Cyngor.
Er mwyn rheoli cynllun y mynwentydd bydd Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn penderfynu ar leoliad adrannau a beddau o fewn yr adrannau hynny.

4.8.5 Bydd bedd o led ac o hyd digonol i dderbyn arch o'r maint a nodir ar yr hysbysiad am gladdedigaeth.
Cyfrifoldeb yr un sy'n gwneud trefniadau'r angladd yw darparu mesuriadau cywir o faint yr arch i sicrhau y darperir bedd o'r maint cywir.

4.8.6 Bydd bedd yn cael ei fatio a'i wisgo'n briodol cyn i gladdedigaeth ddigwydd oni bai bod yr ymgeisydd neu'r cynrychiolydd sy'n gweithredu ar eu rhan yn gofyn fel arall.
Er mwyn darparu amgylchedd dymunol bydd pob bedd yn cael ei 'wisgo' cyn unrhyw gladdedigaeth. Os oes unrhyw un nad oes angen y gwasanaeth hwn arnynt, dylid cyflwyno cyfarwyddiadau'n ysgrifenedig i'r Reolwr Gweithredol (Profedigaeth) yn y Swyddfa Weinyddol.

4.8.7 Ar ôl pob claddedigaeth gosodir haenen o dâp rhybuddio yn y bedd 6 modfedd uwchben yr arch a gladdwyd ddiwethaf, er mwyn darparu canllaw ynglŷn â'r dyfnder lle y'i claddwyd os digwydd y bydd cloddio yn y gofod bedd yn y dyfodol.
Mae hyn yn sicrhau nad ymyrrir yn anfwriadol â chladdedigaethau blaenorol wrth ailagor beddau sydd eisoes yn bodoli.

4.8.8 Yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) a lle y mae'n ddiogel ac y bosibl gwneud hynny, bydd y Cyngor yn caniatáu i'r teulu ôl-lenwi o dan oruchwyliaeth staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd. Os bydd teulu am ôl-lenwi'r bedd ar ôl y gwasanaeth, rhaid cynnwys manylion ar yr hysbysiad gwreiddiol am gladdedigaeth.
Mae rhai teuluoedd yn cael mai ffordd briodol i dalu'r deyrnged olaf i'r ymadawedig yw hon. Ym mhob achos bydd staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn bresennol i arolygu a goruchwylio'r ôl-lenwi a rhoi cymorth lle bo angen.

4.9 Beddau Brics, Siambrau a Chladdgelloedd

4.9.1 O ran bedd brics, siambr neu gladdgell, paratoir y bedd gan staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd neu eu contractwyr penodedig.

4.9.2 Trefnir bricio unrhyw gladdgell, siambr neu fedd gan y teulu neu'u cynrychiolydd. Telir cost darparu claddgell, siambr neu fedd brics gan yr un sy'n gofyn am y gwaith neu ei g/chynrychiolydd.
Trefniant preifat yw hwn rhwng yr un sy'n trefnu'r gladdedigaeth ac unigolyn sydd â chymwysterau priodol i ymgymryd â'r gwaith er boddhad y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth).

4.9.3 Mewn achosion lle y mae angen darparu siambr frics oherwydd cloddiad bas blaenorol bydd cost darparu'r siambr frics yn cael ei thalu gan y Cyngor.
Mewn rhai achosion efallai y bydd angen darparu siambr frics i hwyluso'r gladdedigaeth derfynol mewn bedd a fyddai fel arall yn fas. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â dyfnder beddau bydd claddgell frics yn cael ei darparu.

4.10 Claddu Plant Marwanedig a Gweddillion Ffetysau

4.10.1 Ni chaniateir claddu plentyn marwanedig oni bai bod Tystysgrif Waredu'r Cofrestrydd neu Orchymyn Claddu'r Crwner yn cael eu rhoi i'r Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) cyn y gladdedigaeth.
Gofyniad statudol yw hwn.

4.10.2 Rhaid i gorff unrhyw blentyn marwanedig a ddygir i'r Fynwent i'w gladdu fod wedi'i amgáu mewn cynhwysydd addas.
Er mwyn rhoi'r parch priodol i'r ymadawedig a hefyd atal y gofid y gellir ei achosi i ymwelwyr eraill neu staff, mae'n hanfodol bod corff unrhyw unigolyn ymadawedig wedi'i orchuddio'n iawn.

4.10.3 Caniateir claddu plant marwanedig a gweddillion ffetysau mewn unrhyw ofod bedd a berchenogir yn breifat, yn yr adrannau claddu sydd wedi'u neilltuo i Fabanod a Phlant Marwanedig neu mewn gofod bedd nad yw'n ddarostyngedig i Hawl Unigryw i Gladdu.
Mae hyn yn cynnig dewis i'r galarwyr.

4.10.4 Rhaid prynu a threfnu cofebion i gladdedigaethau yn yr adrannau claddu o'r mynwentydd sydd wedi'u neilltuo i Blant Marwanedig a Gweddillion Ffetysau trwy Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd.
Nid yw'r beddau yn yr adrannau o'r Mynwentydd sydd wedi'u neilltuo i Blant Marwanedig a Gweddillion Ffetysau'n ddarostyngedig i Hawl Unigryw i Gladdu ac, fel y cyfryw, ni chaniateir eu cofláu fel arfer. Er mwyn diwallu anghenion teuluoedd y rhai ymadawedig, caniateir math unffurf cost isel o Gofeb sydd ar gael trwy Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd.

4.11 Clefydau Heintus

4.11.1 Ni fydd corff rhywun sydd wedi marw o glefyd heintus peryglus yn cael ei ganiatáu mewn unrhyw Gapel yn y Mynwentydd oni bai bod tystysgrif oddi wrth Swyddog Iechyd Ardal y cylch lle y digwyddodd y farwolaeth yn cael ei rhoi i'r Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth). Dylai tystysgrif o'r fath ragosod manylion megis cadarnhad bod yr arch sy'n cynnwys y corff wedi'i chwistrellu'n drylwyr â diheintydd ar ôl i'r caead gael ei sgriwio i lawr a bod camau digonol wedi'u cymryd rhag taenu'r clefyd i'w foddhad. Os bydd aroglau drwg yn dod o unrhyw gorff a ddygir i'w gladdu caiff y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) neu rywun arall a benodir ganddo orchymyn na eir ag unrhyw gorff o'r fath y tu mewn i unrhyw gapel yn y mynwentydd.
Mae hyn er mwyn amddiffyn Iechyd a Diogelwch ymwelwyr a staff.

4.11.2 At ddiben y Rheol hwn mae'r term " clefyd heintus peryglus' yn cynnwys pla, colera, y frech wen, y dwymyn deiffws, y dwymyn goludd (gan gynnwys y twymynau teiffoid a pharateiffoid), y dwymyn goch a difftheria ac unrhyw glefydau heintus eraill y gall y Swyddog Iechyd

Ardal benderfynu o bryd i'w gilydd y mae angen y cyfryw ragofalon arnynt.
Y rhestr gyfredol o glefydau heintus peryglus yw hon; gall y Prif Swyddog Meddygol ychwanegu at y rhain ar unrhyw adeg.

4.12 Ôl-ofal Beddau

4.12.1 Bydd y Cyngor yn rheoli ôl-ofal a chynnal a chadw'r Mynwentydd fel y maent yn gweld yn dda ac yn unol â'r safonau gwasanaeth a ragosodir gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd. Mae hyn y cynnwys lefelu, tywarchu neu hadu ardaloedd yn y Mynwentydd yn ôl y gofyn.

. *O dan Erthygl 4 Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 mae dyletswydd ar yr awdurdod claddu i gadw'r fynwent mewn cyflwr da.*

Mae gwasanaethau profedigaeth yn cyflogi staff hyfforddedig a chymwysedig i ymgymryd â dyletswyddau cynnal a chadw'r tiroedd. Er y gall teuluoedd ddewis gofalu am eu beddau eu hunain cynghorir yn gryf y gofynnir am unrhyw waith mawr trwy'r swyddfa weinyddu.

4.13 Mathau o Feddau

4.13.1 Mae Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn cynnig gwahanol fathau o feddau sydd ar gael ar gyfer claddedigaethau cyflawn. Y rhain yw:

a) Bedd Lawnt
b) Bedd Hanner Lawnt
c) Bedd Traddodiadol
d) Bedd Coetir
e) Beddau Gweddillion Amlosgi

4.13.2 **Beddau Lawnt**

4.13.2.1 Mae Beddau Lawnt ar gael ar hyn o bryd ym Mynwentydd Thornhill, y Gorllewin a Phant-mawr.

4.13.2.2 Lle y bo modd gosodir pob Bedd Lawnt newydd â sylfaen concrid ar gyfer gosod Cofeb.
Mae hyn yn golygu y gellir gosod cofeb yn syth ar ôl y gladdedigaeth neu cyn y gladdedigaeth os bydd gofyn.

4.13.2.3 Ar wahân i garreg fedd a osodir ar y sylfaen ym mhen y bedd, ni chaniateir unrhyw fath o goffáu (ac er mwyn osgoi amheuaeth mae hyn yn cynnwys cyrbau, ffensiau, ymylon, cerrig mân, planhigion neu forderi o unrhyw fath) ar Fedd Lawnt.
Mae angen i Feddau Lawnt fod yn glir o unrhyw ddeunyddiau i hwyluso cynnal a chadw rheolaidd a rhwydd a hefyd i sicrhau bod pob teulu sy'n prynu bedd ar adran lawnt yn gallu cynnal a chadw effaith lawnt trwy'r adran i gyd. Ceir beddau traddodiadol sy'n caniatáu cyrbau, ymylon a phlanhigion, ar gais, yn adrannau eraill o'r Mynwentydd.

4.13.2.4 Mae cofeb a osodir ar Fedd Lawnt yn unol â Rheol 4.13.2.3 yn ddarostyngedig i'r Rheolau Cofláu a gynhwysir yn y ddogfen hon.

4.13.3 **Beddau Hanner Lawnt**

4.13.3.1 Ni cheir Beddau Hanner Lawnt ond ym Mynwent y Gorllewin.

4.13.3.2 Mae Bedd Hanner Lawnt yn un lle y gellir gosod cyrbau sydd wedi'u suddo i lefel y ddaear ar hyd ymylon y bedd ynghyd â charreg fedd. *RHAID bod y cyrbau ar hyd yr ymylon yn gyfwyneb â'r tir o gwmpas y bedd i hwyluso cynnal a chadw'r ardaloedd.*

4.13.3.3 Caiff yr ardal o fewn cwrb Bedd Hanner Lawnt gynnwys slab llwyfan neu gael ei thywarchu, ei phlannu â phlanhigion addas neu ei gorchuddio â cherrig mân. Rhaid i unrhyw waith coffa/carreg gael ei wneud yn unol â'r Rheolau Cofláu.
Cyfrifoldeb perchennog y bedd yw'r ardal o fewn ymylon/cwrb y Bedd Hanner Lawnt a chaiff hi/ef osod unrhyw ddeunydd addas a chymeradwy o fewn yr ymylon/cwrb neu blannu'r ardal â phlanhigion addas. Ni chaniateir llwyni na choed.

4.13.3.4 Gellir gosod plac neu ffiol goffa ar Fedd Hanner Lawnt ar yr amod eu bod yn unol â'r Rheolau Cofláu.

4.13.3.5 Cyfrifoldeb teulu/perthynas agosaf yr ymadawedig sydd wedi'i gladdu yn y bedd yw cynnal a chadw'r ardal fewnol. Os bydd unrhyw Fedd Hanner Lawnt yn cael ei esgeuluso neu'n dod yn anniben ym marn staff y Gwasanaethau Profedigaeth, lle y bo modd, bydd Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn hysbysu perchennog cofrestredig y bedd bod y Bedd Hanner Lawnt wedi'i esgeuluso neu wedi dod yn anniben. Mewn achos o'r fath bydd staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn tynnu ymaith unrhyw blanhigion/haenen o risgl, taenfa neu orchudd daear tebyg o fewn y 14 diwrnod nesaf oni bai bod y teulu/perthynas agosaf yn eu hysbysu o fewn yr amserlen 14 diwrnod honno y byddant yn tacluso'r bedd o fewn y 5 niwrnod nesaf. Cyn i Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd ddechrau unrhyw waith, tynnir llun o'r ardal a'i gadw ar ffeil.
Mae hyn yn sicrhau bod y Mynwentydd yn cael eu cadw mewn cyflwr taclus er budd yr holl ymwelwyr gan hefyd osgoi gofid a gwrthdaro â theuluoedd trwy eu hysbysu am y bwriad i ymgymryd â gwaith.

4.13.4 **Beddau Traddodiadol**

4.13.4.1 Mae Beddau Traddodiadol ar gael ar hyn o bryd ym Mynwentydd y Gorllewin, Trelái a Phant-mawr ac, o fis Awst 2009, ym Mynwent Thornhill.
Mae dewis beddau'n gadael i'r galarwyr sicrhau y gallant ddewis y math cywir o fedd i ddiwallu eu hanghenion.

4.13.4.2 Gosodir Beddau Traddodiadol i adael i gyrbau, ymylon a llwyfannau llawn gael eu gosod ar y beddau. Caniateir planhigion addas o fewn y cyrbau. Ni ddylai cyrbau nac ymylon fod yn fwy na 7' wrth 3'. Gellir rhoi planhigion addas yn y gofod bedd llawn o fewn y cyrbau neu'r ymylon neu gellir rhoi cerrig mân o fewn yr ymylon ar ben slab llwyfan.
Mae'r gofodau bedd yn 10' o hyd wrth 4' o led ar eu mwyaf. Rhaid i bob cofeb gael ei chynnwys o fewn y dimensiynau hyn.
Cyfrifoldeb perchennog y bedd yw'r ardal o fewn yr ymylon cwrb a chaiff hi/ef osod unrhyw ddeunydd addas a chymeradwy o fewn yr ymylon neu blannu'r ardal â phlanhigion addas. Ni chaniateir llwyni na choed.

4.13.4.3 Gosodir Beddau Traddodiadol mewn ardal o'r Mynwentydd lle nad oes angen fawr o gynnal a chadw.
Dosberthir yr ardal fel un lle nad oes angen fawr o gynnal a chadw ac ni cheir unrhyw lawnt na mannau glaswelltog. Mae hyn yn galluogi staff y tiroedd i gynnal a chadw'r holl Fynwent at safon dderbyniol.

4.13.4.4 Cyfrifoldeb teulu/perthynas agosaf yr ymadawedig sydd wedi'i gladdu mewn Bedd Traddodiadol yw cynnal a chadw'n briodol unrhyw ardal yn y Bedd sydd wedi'i phlannu.
Cyfrifoldeb perchennog cofrestredig y bedd yw'i gynnal a'i gadw gan gynnwys ei blanhigion a chyflwr y gofeb.

4.13.4.5 Mae unrhyw Gofeb a osodir ar Fedd Traddodiadol yn ddarostyngedig i'r Rheolau Coffáu.

4.13.4.6 Cyfrifoldeb teulu/perthynas agosaf yr ymadawedig sydd wedi'i gladdu yn y bedd yw cynnal a chadw'r ardal fewnol. Os bydd unrhyw Fedd Traddodiadol yn cael ei esgeuluso neu'n dod yn anniben ym marn staff y Gwasanaethau Profedigaeth, lle y bo modd, bydd Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn hysbysu perchennog cofrestredig y bedd bod y Bedd Traddodiadol wedi'i esgeuluso neu wedi dod yn anniben. Mewn achos o'r fath bydd staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn tynnu ymaith unrhyw blanhigion/haenen o risgl, taenfa neu orchudd daear tebyg o fewn y 14 diwrnod nesaf oni bai bod y teulu/perthynas agosaf yn eu hysbysu o fewn yr amserlen 14 diwrnod honno y byddant yn tacluso'r bedd o fewn y 5 niwrnod nesaf. Cyn i Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd ddechrau unrhyw waith, tynnir llun o'r ardal a'i gadw ar ffeil.

4.13.5 Beddau Coetir

4.13.5.1 Ceir beddau coetir ym Mynwent Thornhill. Cynllunnir yr ardal (sef yr 'Adran Claddedigaethau Coetir') i fod yn ardal 'yn ôl at natur' ac fe'i rheolir mewn ffordd sy'n annog bywyd gwyllt i ymgartrefu yno a ffawna a chynefin naturiol i ffynnu.
Mae hyn yn rhoi mwy o ddewis i alarwyr.

4.13.5.2 Ar gyfer un unigolyn yn unig y mae pob gofod bedd.
Mae natur beddau coetir yn golygu bod lle i un gladdedigaeth yn unig yn y bedd.

4.13.5.3 Ni chaniateir unrhyw Gofebion cerrig neu wneuthuredig o fewn yr Adran Claddedigaethau Coetir.
Syniad ardal claddedigaethau coetir yw creu ardal coetir naturiol. Felly, ni allwn ganiatáu i unrhyw gofeb garreg neu wneuthuredig gael ei gosod.

4.13.5.4 Mae Cofebion Pren ar gael trwy'r Gwasanaethau Profedigaeth am y ffi a bennir yn y Tabl Ffioedd.
Y rhain yw'r unig fathau o gofebion a ganiateir i nodi bedd yn yr ardal hon.

4.13.5.5 Gwasanaethau Profedigaethau Caerdydd sy'n cynnal a chadw'r Adran Claddedigaethau Coetir i sicrhau bod yr ardal yn gydnaws ag ardal coetir sydd wedi'i naturioli. Felly, ni fydd y glaswellt yn cael ei dorri'n amlach na dwywaith y flwyddyn ac anogir planhigion a blodau naturiol. Ymgymerir â gwaith clirio lle bo angen ac fel a nodir gan staff y gwasanaethau profedigaeth.
Mae'r rhaglen gynnal a chadw wedi'i sefydlu i annog rhywogaethau naturiol i ffynnu yn yr ardal. Dylai'r rheini sydd eisiau bedd sy'n llawer mwy ffurfiol ei olwg ystyried math arall o fedd.

4.13.6 Beddau Gweddillion Amlosgi

4.13.6.1 Darperir beddau ar gyfer gweddillion amlosgi ym Mynwentydd Thornhill, Y Gorllewin a Cathays.
Ceir plotiau claddu sydd wedi'u neilltuo ar gyfer gweddillion amlosgi yn y lleoliadau uchod.

4.13.6.2 Hefyd, gellir claddu gweddillion amlosgi mewn unrhyw fedd maint llawn arall lle y mae Hawl Unigryw i Gladdu wedi'i chaniatáu, ar yr amod bod perchennog yr Hawl Unigryw i Gladdu wedi rhoi'r caniatâd angenrheidiol i gladdu yn y bedd hwnnw, neu os dymunir, mewn gofod bedd sydd heb ei brynu.
Gellir claddu gweddillion amlosgi mewn unrhyw fedd neu fedd maint llawn i oedolyn os bydd angen.

4.13.6.3 Rhaid bod gweddillion amlosgi'n cael eu dal mewn cynhwysydd sy'n addas i'w gladdu. Rhaid bod enw llawn yr ymadawedig yn amlwg ar y cynhwysydd.
Mae ffurf addas i adnabod yr ymadawedig yn hanfodol i sicrhau bod y gweddillion cywir wedi'u claddu yn y bedd cywir.

4.13.6.4 Ni chaniateir claddu gweddillion amlosgi oni roddir copi o'r Dystysgrif Amlosgi o'r Amlosgfa lle y cafwyd yr amlosgiad i'r Swyddfa Weinyddol, ynghyd â'r hysbysiad angenrheidiol gorffenedig am gladdedigaeth a'r ffi benodedig. Os bu'r amlosgiad yn Amlosgfa Thornhill nid oes angen tystysgrif amlosgi o'r fath i gladdu gweddillion amlosgi yn unrhyw un o'r Safleoedd.
Mae hyn er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol.

4.14 Cymhwyso'r Rheolau at rai beddau a oedd yn bodoli cyn i'r Ddogfen Bolisi ddod i rym

4.14.1 Mae Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn cydnabod efallai y ceir rhai beddau yn y Safleoedd a oedd yn bodoli eisoes cyn i'r Ddogfen Bolisi hon ddod i rym ac na fydd yn cydymffurfio â'r Rheolau a ragosodir ynddi. O dan rai amgylchiadau mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddefnyddio ei ddisgresiwn i hepgor rhai o'r Rheolau hyn neu'r Rheolau i gyd ynglŷn â beddau o'r fath ar yr amod bod y beddau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda gan eu perchenogion a/neu'u teuluoedd/etifeddion.

4.14.2 Bydd y rheolau canlynol hefyd yn berthnasol i unrhyw feddau o'r fath:-

4.14.2.1 Bydd unrhyw fedd o'r fath sydd mewn adran lawnt ddynodedig yn cael ei archwilio'n rheolaidd gan staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd.

4.14.2.2 Os bydd unrhyw fedd mewn adran lawnt ddynodedig yn cael ei esgeuluso neu'n dod yn anniben ym marn staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd, lle bo modd, bydd Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn hysbysu perchennog cofrestredig y bedd bod y bedd wedi'i esgeuluso neu wedi dod yn anniben a/neu ei fod yn cynnwys unrhyw gofebion anawdurdodedig megis ffensiau, cyrbau neu ymylon ar y bedd lawnt neu o'i gwmpas sydd wedi mynd â'u pennau iddynt. Ar ôl 14 diwrnod o dderbyn hysbysiad o'r fath, os nad yw'r bedd wedi'i gynnal a'i gadw neu'i drwsio'n iawn neu'i dacluso neu os nad yw perchennog y bedd, y teulu neu'r berthynas agosaf wedi hysbysu Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd o fewn y cyfryw amserlen 14 diwrnod y byddant yn cynnal a chadw/trwsio a/neu'n tacluso'r bedd o fewn y 5 niwrnod nesaf, yna fe wneir y gwaith angenrheidiol gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd.
Mae hyn yn sicrhau bod beddau sydd wedi'u hesgeuluso'n cael eu hadfer i gyflwr twt a chymen er budd ein holl ymwelwyr a staff y tiroedd sy'n cynnal a chadw'r ardaloedd.

4.14.2.3 Ynglŷn â Rheol 4.14.2.2, unwaith i unrhyw eitemau gael eu tynnu ymaith ac unrhyw waith gael ei wneud ar y bedd, bydd rheoli/cynnal a chadw gofod y bedd yn ddarostyngedig i'r Rheolau a ragosodir yn y Ddogfen Bolisi hon ac ni ddefnyddir unrhyw ddisgresiwn pellach ar ran y Cyngor ynglŷn â hepgor rheolau o'r fath.
Mae hyn yn sicrhau na fydd problemau ynglŷn â gofebion anawdurdodedig yn digwydd eto yn y dyfodol a bod y tiroedd yn cael eu cadw mewn cyflwr twt a chymen.

4.14.5.1 Mae'r Rheolau a ragosodir yn 4.14 yn berthnasol hefyd i weddillion amlosgi a beddau traddodiadol lle y mae unrhyw gofebion anawdurdodedig wedi'u hesgeuluso.

Mae hyn yn golygu y gall yr Awdurdod ddelio ag unrhyw ofod bedd beth bynnag yw ei fath os bydd yn cael ei esgeuluso.

5. Rheolau a Chanllawiau Amlosgi a'r Amlosgfa

5.1 Ni fydd Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn ymgymryd ag amlosgiad nes bod o leiaf 3 Diwrnod Gwaith wedi mynd heibio ers y dyddiad pryd y derbyniwyd y cais am amlosgi gan y Swyddfa Weinyddol ac ar yr amod eu bod wedi derbyn awdurdod ysgrifenedig y Dyfarnwr Meddygol i wneud hynny.
Mae hyn er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Amlosgi 2008. Anfonebir yr holl ffioedd a thaliadau ynglŷn ag amlosgiad sy'n daladwy i Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd ar ôl derbyn y ffurflen gais orffenedig. Codir yr anfoneb yn erbyn yr un sy'n cyflwyno'r ffurflen, sef, o dan amgylchiadau arferol, y Trefnydd Angladdau'n gweithredu ar ran y galarwyr. Gellir talu ffioedd yn uniongyrchol i'r Swyddfa Weinyddol a rhaid eu talu cyn yr amlosgiad.

5.2 Archebu a Cheisiadau

5.2.1 Yn y lle cyntaf rhaid archebu amlosgiad yn Amlosgfa Thornhill trwy'r Swyddfa Weinyddol.

5.2.2 Rhaid gwneud cais am amlosgiad ar y ffurflen benodedig i'r Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) yn y Swyddfa Weinyddol (lle y ceir yr holl ffurflenni angenrheidiol)

(i) erbyn 9:30am fan bellaf ac o leiaf 3 Diwrnod Gwaith cyn yr amser amlosgi penodedig; a
(ii) rhwng 9:00am a 5:00pm ddydd Llun i ddydd Gwener (dylid sylwi na ellid dosbarthu ffurflenni o'r fath ar ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Gwener y Groglith, Dydd Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Calan, gwyliau banc, gwyliau statudol y cyngor neu unrhyw ddyddiau eraill a benodir ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus).

5.3 Yr hawl i'r ymgeisydd archwilio'r ffurflenni meddygol

5.3.1 Os yw'r ymgeisydd, yn y ffurflen gais am amlosgiad, wedi hysbysu Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yr hoffai archwilio'r dystysgrif feddygol a'r dystysgrif feddygol gadarnhau (neu os yw wedi enwebu rhywun arall i archwilio'r tystysgrifau hynny) gan roi rhifau ffôn cyswllt i Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd, yna cyn gynted ag y bydd Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn derbyn y dystysgrif feddygol a'r dystysgrif feddygol gadarnhau bydd yn ymdrechu i hysbysu'r ymgeisydd neu'r un sydd wedi'i enwebu gan yr ymgeisydd gan ddefnyddio'r rhifau ffôn cyswllt a roddir ganddo/ganddi.

5.3.2 O fewn 48 awr o gael ei hysbysu gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn unol â Rheol 4.3.1, caiff yr ymgeisydd (neu un sydd wedi'i enwebu gan yr ymgeisydd yn y ffurflen gais):

5.3.2(i) archwilio'r dystysgrif feddygol a'r dystysgrif feddygol gadarnhau yn Swyddfa Weinyddol; a
5.3.2(ii) gwneud unrhyw sylwadau wrth y Dyfarnwr Meddygol am unrhyw fater a gynhwysir yn y tystysgrifau neu yn yr ymholiad a wnaed gan yr un a roddodd y dystysgrif.
Efallai y codir ffi gan y Dyfarnwr Meddygol am y gwasanaeth hwn.

5.4 Capeli a Gwasanaethau

5.4.1 Mae gan yr Amlosgfa ddau gapel cydenwadol ac amserau'r gwasanaethau a ganiateir yw fel a ganlyn:

Capel Wenallt (Niferoedd y seddau 150 – Amserau'r Gwasanaethau 45 munud yr un)
Ddydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am – 4.30 pm (yn gynhwysol)
Ddydd Sadwrn 10.00 am – 12.00 canol dydd (yn gynhwysol)

Capel Briwnant (Niferoedd y seddau 50 – Amserau'r Gwasanaethau 45 munud yr un)
Ddydd Llun i ddydd Gwener 9.30 am – 4.15 pm (yn gynhwysol)
Ddydd Sadwrn 10.15 am – 12.30 pm (yn gynhwysol)
Pennir amserau'r gwasanaethau i ganiatáu i wasanaeth ystyrlon gael ei gwblhau ac i alarwyr ddod i mewn i'r Capel a gadael o fewn y cyfnod 45 munud.

5.4.2 Os bydd angen amser hirach ar gyfer gwasanaeth gellir archebu 45 munud ychwanegol am dâl ychwanegol yn unol â'r Tabl Ffioedd.
Mae hyn ar gyfer y rhain sy'n dymuno gwasanaeth hirach neu os rhagwelir y bydd nifer mawr o alarwyr yn ei fynychu ac na fydd 45 munud yn ddigon hir i gael yr holl alarwyr yn y capel i'w seddau, cynnal gwasanaeth a chlirio'r capel wedyn.

5.4.3 Ni chaniateir unrhyw newid yn yr amser a drefnir ar gyfer gwasanaeth heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth).
Gall Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Profedigaeth newid yr amserau a bydd yr holl randdeiliaid allweddol yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau parhaol.

5.4.4 Mae'r ddau Gapel yn gydenwadol ac felly ni cheir symbolaeth grefyddol barhaol ynddynt. Y teulu neu gynrychiolydd y teulu sy'n gyfrifol am hysbysu'r Swyddfa Weinyddol am unrhyw symbolaeth grefyddol benodol sydd ei hangen ai peidio ar gyfer y gwasanaeth.
Er mwyn gweithredu'n gwasanaeth mewn cymdeithas amlddiwylliannol mae'n hanfodol nad oes unrhyw osodiadau parhaol yn y naill Gapel na'r llall.

5.4.5 Y teulu neu gynrychiolydd y teulu sy'n gyfrifol am hysbysu'r Swyddfa Weinyddol am fanylion penodol ynglŷn ag anghenion y gwasanaeth. *Mae gan bawb sy'n defnyddio ein cyfleusterau ddewis cyflawn o ran cynnwys a math o wasanaeth gan gynnwys cerddoriaeth, darlleniadau a fformat y gwasanaeth. Rhaid rhoi'r holl gyfarwyddiadau penodol yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Weinyddol gyda'r gwaith papur angenrheidiol er mwyn i drefniadau addas gael eu rhoi yn eu lle a bodloni dymuniadau'r teulu. Rhaid i deuluoedd hefyd sicrhau y trefnir pob cais ynglŷn â'r gwasanaeth trwy eu cynrychiolydd.*

5.5 Gweithdrefn Amlosgi

5.5.1 Mae'n rhaid i bawb sy'n mynychu amlosgiad fod yn brydlon er mwyn atal y naill angladd rhag ymyrryd â'r llall. Yr amser a drefnir ar gyfer amlosgiad yw'r amser pryd y gofynnir bod y cynhebrwng wrth fynedfa'r Capel a archebir.
Mae'n hanfodol bod cynhebryngau'n cyrraedd ar amser er mwyn i'r gwasanaeth weithredu'n llyfn.

5.5.2 Ni chaiff cynhebrwng sy'n cyrraedd yn hwyr fynd i mewn i'r Capel oni bai bod cyfnod clir o 15 munud rhwng yr amser mae'n cyrraedd a'r amser a benodir ar gyfer y gwasanaeth nesaf yn y Capel. Os bydd cynhebrwng yn cyrraedd yn hwyr, cyfrifoldeb yr un sy'n arwain yr angladd yw sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gwtogi i sicrhau ei fod yn gorffen ar yr amser penodedig priodol.
Mae hyn yn sicrhau na pherir oedi i angladdau dilynol.

5.5.3 Ac eithrio wrth ddisgresiwn y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth), ni chaniateir unrhyw wasanaeth amlosgi ar ddydd Sul, Gŵyl Banc statudol, Dydd Nadolig, Dydd Calan, Dydd Gwener y Groglith, neu unrhyw ddiwrnod arall a bennir ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.
Mae hyn yn caniatáu i'r gwasanaeth gael ei gynllunio'n ddigonol.

5.5.4 Rhaid i bob corff a ddygir i'r Amlosgfa i'w amlosgi fod mewn arch neu amdo addas ar batrwm y cytunir arno. Rhaid bod yr arch neu'r cynhwysydd addas wedi'u nodi at ddibenion adnabod gan gynnwys enw llawn ac oedran yr ymadawedig.
Mae hyn yn gofyniad o dan y 'Guiding Principles for Burial and Cremation Authorities' a gyhoeddir gan y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM). Gall y swyddfa weinyddol yn Thornhill roi manylion ynglŷn â dewis arch a mathau o eirch.

5.5.5 Bydd un o aelodau staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn cwrdd â phob cynhebrwng. Ni chaiff unrhyw wasanaeth amlosgi fynd rhagddo oni fydd aelod staff yn ei hebrwng. Bydd y plât enw ar yr arch yn cael ei wirio cyn i unrhyw wasanaeth amlosgi gael ei chaniatáu.
Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr ymadawedig cywir yn y capel cywir gan ffurfio rhan o wiriadau gweithdrefnol Gwasanaeth Profedigaeth Caerdydd.

5.5.6 Bydd yr un sy'n trefnu'r angladd neu ei g/chynrychiolydd yn sicrhau bod digon o bobl ganddynt i drosglwyddo'r arch o'r cerbyd i'r Capel. Ym mhob achos ni ddylai y nifer fod yn llai na 3 unigolyn (os yn defnyddio elor olwynion) ar gyfer amlosgi oedolyn (4 os bydd yr arch yn cael ei chario).
Ni all staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd helpu i gludo'r arch o'r hers i'r Capel. Dylai asesiad risg addas gael ei wneud gan yr unigolion sy'n cludo'r arch o'r hers i'r capel. Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd dros golled neu ddifrod i unrhyw un tra bydd yr arch yn cael ei chludo o'r cerbyd i flaen y Capel. Y trefnydd angladdau sy'n gyfrifol am y weithred hon neu rywun arall sy'n gwneud trefniadau'r angladd.

5.5.7 Dylid tynnu modrwyau, gemwaith ac eitemau personol sydd ar neu am y corff cyn i'r corff gael ei roi yn yr arch amlosgi ac ni fydd y Cyngor yn atebol dros eitemau o'r fath ar ôl yr amlosgiad.
Dylid tynnu unrhyw gemwaith oddi ar yr ymadawedig cyn y gwasanaeth amlosgi os bydd angen; unwaith i'r pethau gwerthfawr gael eu rhoi yn yr amlosgydd ni fydd modd eu cael yn ôl.

5.5.8 Ac eithrio mewn achosion lle y mae'r ymadawedig wedi marw o glefyd hysbysadwy, os bydd cais, gellir agor yr arch fel rhan o'r gwasanaeth a gynhelir yn y Capel. Rhaid rhoi caead yr arch yn ei ôl cyn i'r arch gael ei llwytho i'r amlosgydd.
Mae hyn yn gadael dewis pellach i'r galarwyr gan alluogi'r gwasanaeth i gael ei bersonoli.

5.5.9 Dylai pawb sy'n mynychu gwasanaeth adael y Capel yn syth ar ôl diwedd y gwasanaeth.
Mae hyn yn sicrhau na pherir oedi i'r gwasanaethau dilynol.

5.5.10 Ymgymerir â'r broses amlosgi'n unol ag unrhyw ganllawiau, codau ymarfer a gofynion y cyrff rheoleiddio sy'n cyhoeddi neu a all gyhoeddi'r cyfryw ynglŷn ag amlosgi gan gydymffurfio â rheoliadau statudol.
Rhaid ymgymryd â phob amlosgiad o dan ganllawiau deddfwriaethol ac arfer gorau cyfredol (er enghraifft, y "Guiding Principles for Burial and Cremation Authorities" a gyhoeddir gan yr ICCM).

5.5.11 Ni chaniateir gwylio'r broses amlosgi heb ganiatâd diamwys y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth). Yn gyntaf mae'n rhaid cytuno â'r Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) ar nifer y cynrychiolwyr i weld yr arch yn cael ei rhoi yn yr amlosgydd.
Caiff unrhyw un weld yr arch yn cael ei rhoi yn yr amlosgydd ar yr amod bod cais am ganiatâd wedi'i wneud ymlaen llaw.

5.5.12 Ar ôl y Gwasanaeth Traddodi

(a) Ni agorir arch oni lenwir y ffurflen berthnasol sy'n rhoi caniatâd (ceir ffurflenni o'r fath gan y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth) ac oni fydd o leiaf 2 dyst annibynnol yn bresennol; ac

(b) ni fydd arch na chorff yn cael eu tynnu ymaith o'r Amlosgfa ac eithrio am reswm cyfreithiol.

Mae'r rhain yn ofynion i ddiogelu ein staff a galarwyr.

5.5.13 Rhaid cwblhau pob amlosgiad o fewn 72 awr o dderbyn yr arch yn yr Amlosgfa a bydd pob arch yn cael ei hamlosgi'n unigol.
Mae hyn yn unol â chanllawiau cyfredol y diwydiant. Delir unrhyw eirch nad ydynt yn cael eu hamlosgi ar yr un diwrnod ar y safle yn yr amlosgfa mewn storfa reweiddiedig addas.

5.5.14 Rhaid bod yr arch wedi'i gwneud o ddeunydd sy'n hawdd ei losgi. Ni ddylid defnyddio pren resinaidd nac sydd heb ei sychu'n dda. Ni ddylid defnyddio unrhyw fetel o unrhyw fath ac eithrio hoelion, pinnau a sgriwiau a ddefnyddir wrth adeiladu'r arch. Rhaid i handlenni, platiau enw neu addurniadau fod yn hawdd eu llosgi; rhaid defnyddio plygiau pren caled lle bynnag y bo modd. Ni ddylid glynu unrhyw drawsbrennau wrth waelod yr arch. Os dymunir cryfhau gwaelod yr arch, gellir gosod stribynnau ar eu hyd at y diben hwn. Gellir cotio'r arch â phaentiau neu farnais sail dŵr.
Mae arch sydd wedi'i hadeiladu'n gywir yn cynorthwyo'r broses amlosgi.

5.5.15 Rhaid osgoi defnyddio blawd llif, papur neu wlân cotwm ac ni ddylid ar unrhyw gyfrif roi pyg yn yr arch. Ni ddylid defnyddio deunyddiau sy'n debygol o achosi mwg neu fygdarth gwenwynig yn yr arch neu arni. Dylid defnyddio dillad ar y corff yn unol â chod ymarfer y diwydiant.
Mae'r eitemau hyn yn rhwystr i'r broses amlosgi a byddant yn golygu na fydd yr amlosgiad yn cydymffurfio â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

5.5.16 Mae'r dimensiynau allanol mwyaf a ganiateir ar gyfer arch i'w hamlosgi fel a ganlyn:-

Arch Draddodiadol: Hyd 7 troedfedd; Lled 2 droedfedd 6 modfedd; Dyfnder 1 droedfedd 4 modfedd
Cistan: Hyd 7 troedfedd; Lled 2 droedfedd 4 modfedd; Dyfnder 1 droedfedd 4 modfedd.

Os yw arch yn fwy nag unrhyw un o'r dimensiynau uchod bydd yn rhaid i'r un sy'n trefnu'r amlosgiad ymgynghori â staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd.
Dyma'r eirch mwyaf a dderbynnir yn amlosgfa Thornhill.

5.5.17 Dylid amgáu corff rhywun sydd wedi marw o glefyd heintus peryglus mewn 2 fag corff a'i roi mewn arch na fydd yn cael ei hagor am unrhyw reswm ar ôl ei chludo i'r Amlosgfa. At ddiben y Rheol hwn mae'r term 'clefyd heintus peryglus' yn cynnwys pla, colera, y frech wen, y dwymyn deiffws, y dwymyn goludd (gan gynnwys y twymynau teiffoid a pharateiffoid), y dwymyn goch a difftheria ac unrhyw glefydau heintus eraill y gall y Swyddog Iechyd Ardal benderfynu o bryd i'w gilydd y mae angen y cyfryw ragofalon arnynt.
Y rhestr gyfredol o glefydau heintus peryglus yw hon; gall y Prif Swyddog Meddygol ychwanegu at y rhain ar unrhyw adeg.

5.5.18 Bydd yr holl weddillion metel a symudir i ffwrdd ar ôl y broses amlosgi yn cael eu storio'n briodol a'u trosglwyddo i sefydliad canolog i'w hailgylchu. Rhaid i unrhyw ymgeisydd nad yw'n dymuno i'r gweddillion metel gael eu cymryd ymaith i'w hailgylchu hysbysu'r Swyddfa Weinyddol cyn y broses amlosgi.
Mae gweddillion metel yn cynnwys hoelion a sgriwiau a ddefnyddir wrth adeiladu'r arch a mewnblaniadau metel. Rhoddir unrhyw elw o ailgylchu'r metelau hyn i elusennau cenedlaethol yn unol â chynllun ailgylchu'r Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd.

5.5.19 Bydd Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn rhoi unrhyw wrn neu gynhwysydd sy'n cynnwys gweddillion amlosgi rhywun ymadawedig i'r ymgeisydd a wnaeth y cais am amlosgiad neu i unigolyn sydd wedi'i enwebu at y diben hwnnw gan yr ymgeisydd. Yn yr achos olaf hwn bydd angen awdurdod ysgrifenedig yr ymgeisydd ar Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd i drosglwyddo'r wrn neu'r cynhwysydd i'r unigolyn sydd wedi'i enwebu. Rhoddir derbynneb gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd wrth drosglwyddo wrn neu gynhwysydd sy'n cynnwys gweddillion amlosgi rhywun ymadawedig.
Mae hyn yn hanfodol er mwyn i Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd reoli storio'r gweddillion amlosgi.

5.5.20 Caniateir adneuo yrnau neu gasgedi sy'n cynnwys gweddillion amlosgi unigolion ymadawedig gan y Cyngor am gyfnod sydd heb fod yn hwy na thri mis, ar yr amod y telir y ffi benodedig (yn unol â'r Tabl Ffioedd) ar ôl mis cyntaf yr adneuo. Os bydd y taliad hwn yn ddyledus am 21 o ddiwrnodau mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gael gwared ag yrnau neu gasgedi o'r fath a'r gweddillion amlosgi ynddynt fel y maent yn gweld yn dda.
Mae hyn oherwydd nad oes ond lle cyfyngedig i storio yn yr Amlosgfa.

5.5.21 Yn absenoldeb unrhyw drefniadau am gael gwared â gweddillion amlosgi ac ar ôl pythefnos o ddyddiad yr amlosgiad, bydd y Cyngor yn rhoi hysbysiad o bythefnos i'r un a wnaeth cais am yr amlosgiad am ei fwriad i wasgaru'r gweddillion amlosgi yn yr Ardd Goffa.
Mae hyn oherwydd nad oes ond lle cyfyngedig i storio yn yr Amlosgfa.

5.5.22 Ni wasgerir y gweddillion amlosgi'n gynharach na 48 awr ar ôl i'r broses amlosgi gael ei chwblhau.
Mae hyn yn gadael i deuluoedd lawn ystyried dewisiadau y tu hwnt i ddyddiad yr amlosgiad.

5.5.23 Ni chaniateir gwasgaru gweddillion amlosgi oni roddir copi o'r Dystysgrif Amlosgi i'r Swyddfa Weinyddol, Thornhill Road, Caerdydd, ac oni thelir y ffi benodedig am wasgaru'r gweddillion amlosgi. Lle y cafwyd yr amlosgiad yn Amlosgfa Thornhill nid oes angen tystysgrif waredu o'r fath er mwyn gwasgaru gweddillion yn unrhyw un o'r safleoedd a weinyddir gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd. Os na fydd Tystysgrif Amlosgi ar gael am unrhyw reswm bydd y Gwasanaethau Profedigaeth yn cadarnhau y gellir cael gwared â'r

gweddillion trwy gadarnhau â'r awdurdod amlosgi neu'r gofrestrfa berthnasol.
Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol blaenorol wedi'u cwblhau cyn cael gwared â'r gweddillion amlosgi.

5.5.24 Ni chaiff neb wasgaru gweddillion amlosgi yn unrhyw ran o diroedd y Mynwentydd na'r Amlosgfa heb ganiatâd y Rheolwr Gweithredol (Profedigaeth). Rhaid gwneud unrhyw gais am y cyfryw'n ysgrifenedig i'r Swyddfa Weinyddol.
Mae'n anghyfreithlon gwasgaru unrhyw weddillion yn nhiroedd y Mynwentydd neu'r Amlosgfa heb gael caniatâd yn gyntaf gan y Cyngor sy'n rheoli ac yn perchen ar y tir.

5.5.25 Caiff yr ymgeisydd am yr amlosgiad fynychu gwasgaru'r gweddillion amlosgi ar amser penodedig. Os bydd angen, caiff teuluoedd drefnu gwasanaeth byr i'w gynnal gan naill ai aelod o'r teulu, gweinidog neu aelod staff o Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd. Rhaid cyflwyno manylion yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Weinyddol erbyn 9.30am o leiaf ddau Ddiwrnod Gwaith cyn amser yr apwyntiad.
Mae hyn yn gadael i'r teulu gael gwasanaeth byr os bydd angen gan roi digon o amser i wneud y trefniadau priodol.

5.5.26 Gellir gosod torchau, tuswau, blodau torri neu flodeugedau eraill yn y Gerddi Coffa ar y mannau caled a ddarperir ac nid yn yr ardaloedd lawnt a gedwir at wasgaru gweddillion yn unig. Mae'r gerddi yn cael eu harolygu'n rheolaidd gan staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd a byddant yn symud ymaith ac yn cael gwared ag unrhyw flodau marw neu dorchau sydd wedi darfod.
Mae hyn yn sicrhau bod y tiroedd yn aros yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

5.5.27 Dim ond yr unigolyn neu'r unigolion a benodir gan y Cyngor at y cyfryw ddiben a gaiff roi cofnodion yn y Llyfr Coffa a ddarperir gan y Cyngor a hynny dim ond ar ôl i'r ffi benodedig, fel a ragosodir yn y Tabl Ffioedd, gael ei thalu.
Dim ond y ceinlythrennwr cymeradwy a gaiff wneud cofnodion a newidiadau yn y llyfrau oherwydd cytundebau dan gontract.

6. Rheolau a Chanllawiau ynglŷn â Chofebion

6.1 Cais am Drwydded i osod Cofeb ar Fedd

6.1.1 Ni ellir gosod unrhyw Gofeb yn unrhyw un o'r Mynwentydd oni bai bod trwydded wedi cael ei roi am y cyfryw gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd.
Mae'n hanfodol bod Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn rheoli Cofebion a osodir yn y Fynwent.

6.1.2 Gall unrhyw un o'r canlynol wneud cais am drwydded i ymgymryd â gwaith Coffa ynglŷn â bedd sy'n ddarostyngedig i Hawl Unigryw i Gladdu neu Hawl i Gladdu :-

6.1.2 (i) perchennog yr Hawl Unigryw i Gladdu neu'r Hawl i Gladdu; neu

6.1.2 (ii) unrhyw un a all fodloni Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd eu bod yn perthyn i'r unigolyn sydd wedi'i gladdu yn y bedd, neu eu bod yn gweithredu ar gais perthynas o'r fath ac nad yw'n ymarferol iddynt neu i'r cyfryw berthynas olrhain yr hawl ddywededig.

Mae hyn yn sicrhau mai'r yr unigolyn cywir sy'n gwneud cais am y gwaith coffa.

6.1.3 Rhaid i'r ffurflen gais am drwydded gael ei chwblhau'n llawn a chynnwys cynllun manwl o'r Gofeb arfaethedig gan gynnwys ei dimensiynau a manylion y dull gosod arfaethedig. Ni phrosesir cais ond ar ôl derbyn y ffi gywir lle bo'n berthnasol.
Mae hyn yn sicrhau y gall ein staff wneud yn siŵr fod y gofeb arfaethedig yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn cael ei gosod at safon a gymeradwyir gan y diwydiant.

6.1.4 Rhaid i'r cais am drwydded nodi'n glir yr adran o'r Fynwent lle y mae'r bedd yn gorwedd ynghyd â rhif y bedd. Mae Atodlen 1 y Ddogfen Bolisi yn rhagosod y Cofebion a ganiateir yn y gwahanol adrannau o Fynwentydd Thornhill, Pant-mawr, Cathays, y Gorllewin a Radur.
Mae hyn yn sicrhau bod y Gofeb yn mynd ar y bedd cywir a bod yr unigolyn priodol yn cael ei awdurdodi i gyfarwyddo'r gwaith.

6.1.5 Dylid cyflwyno pob cais o'r fath am drwydded i'r Swyddfa Weinyddol. Ar ôl cael ei wirio, ac os yw Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn cytuno, rhoddir trwydded i ymgymryd â'r gwaith. Rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud y gwaith a awdurdodir gan y drwydded ei chadw yn ei feddiant bob amser tra bydd yn gwneud y cyfryw waith yn y Fynwent. Unwaith i'r gwaith awdurdodedig gael ei gwblhau rhaid rhoi'r drwydded yn ôl i'r Swyddfa Weinyddol. Yna bydd staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn gwirio safle y gwaith awdurdodedig cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl.
Mae hyn yn golygu y gall staff y Gwasanaethau Profedigaeth ymgymryd â gwiriadau ar y safle i sicrhau bod yr unigolyn sy'n gosod y gofeb wedi'i awdurdodi i wneud hynny.

6.2 Gosod Cofebion

6.2.1 Ni chaniateir i unrhyw waith gael ei wneud ar unrhyw ofod bedd ac eithrio gan:

- Saer Meini Coffa sydd wedi'i achredu o dan Gynllun Cofrestru Seiri Meini Coffa Achrededig Prydain (BRAMM) neu gynllun cyfatebol neu;
- gan staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd (a gall y cyfryw waith gynnwys unrhyw waith sy'n gysylltiedig ag arolygu diogelwch cofebion a gwneud unrhyw Gofeb yn ddiogel dros dro yn sgil hynny)

Gall unrhyw unigolyn ymgymryd â gwaith sylfaenol ac anarbenigol i lanhau/golchi Cofebion.
Er mwyn hyrwyddo safonau uchel a diogelu defnyddwyr nid ydym yn caniatáu ond i'r rheini sy'n gofrestredig o dan y cynllun cenedlaethol cymeradwy ymgymryd ag unrhyw waith ar gofebion yn ein Mynwentydd. Mae gan seiri meini y sgiliau angenrheidiol i sicrhau y gall unrhyw gofeb sy'n cael ei gosod a'i hatgyweirio ganddynt, basio prawf sadrwydd yn y dyfodol.

6.2.2 Mae pob Cofeb (gan gynnwys Cofebion a ailosodir ar ôl claddedigaeth a'r rheini y ceir eu bod yn anniogel ar ôl cael eu profi) i'w gosod yn unol â safon gymeradwy a chod arferion gwaith diogel Cymdeithas Genedlaethol y Seiri Meini Coffa (NAMM). Mae'r rhain yn nodi'r gofynion lleiaf ar gyfer gosod Cofebion. Yn achlysurol, gall fod yn briodol i gynnwys slabiau cynnal neu sylfeini ychwanegol ac ni all y rhain fod yn fwy na 4' o led wrth 18" o ddyfnder.
Rhaid i'r unigolyn a dderbyniodd drwydded i osod y Gofeb neu ei h/etifedd dalu'r holl gostau am y gwaith hwn.
I sicrhau bod pob Cofeb yn ddiogel rhaid iddynt gael eu gosod yn unol â safonau cymeradwy cydnabyddedig y dydd.

6.2.3 Yr unigolyn a dderbyniodd drwydded i osod y Gofeb neu ei h/etifedd sy'n dal i fod yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw Gofeb yn y Fynwent.
Mae pob Cofeb yn aros ym meddiant perchennog y bedd a'i d/theulu a nhw sydd â'r cyfrifoldeb amdano.

6.3 Oriau Gweithredol ar gyfer Gwaith ar Gofebion

6.3.1 Bydd gwaith codi Cofebion, torri arysgrifau arnynt a'u glanhau'n broffesiynol yn cael ei wneud rhwng 9.00am a 4.00pm ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ni ellir ymgymryd â gwaith ond yn ystod oriau gweithredol arferol i sicrhau diogelwch ar y safle.

6.4 Cyfnod Gwarantu Sadrwydd

6.4.1 Rhaid i bob Cofeb a osodir yn unrhyw un o'r Mynwentydd fod yn ddarostyngedig o ddyddiad ei gosod i 'Gwarant Gydymffurfio' a roddir gan y saer maen sy'n gosod y Gofeb. Rhoddir gwarant o'r fath i gadarnhau bod y Gofeb wedi'i gosod at y safon orau a bennir gan NAMM ar ddyddiad y gosod a dylai barhau am 30 o flynyddoedd fan leiaf. Os, yn ystod oes y Gofeb, mae'n dod yn rhydd neu'n ansad ac na ellir priodoli hyn i amodau neu aflonyddu ar y tir, dylai'r saer maen, o dan delerau'r cyfryw warant, ailosod y Gofeb at y safon wreiddiol heb unrhyw gost i berchennog y bedd nac i'r Cyngor.
Gwarant safonol yw hon y mae'n rhaid ei rhoi i unrhyw un sy'n trefnu Cofeb ar unrhyw safle.

6.5 Profi Diogelwch Cofebion

6.5.1 Bydd pob Cofeb yn unrhyw un o'r Mynwentydd yn ddarostyngedig i gael ei phrofi'n rheolaidd. Ar hyn o bryd mae hyn yn digwydd bob 5 mlynedd fel a gymeradwyir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bydd unrhyw Gofebion sy'n methu prawf diogelwch yn cael eu gwneud yn ddiogel gan staff Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd. Gall hyn gynnwys cael eu suddo yn y ddaear yn fertigol, eu gosod yn wastad, eu hynysu, eu hamgylchynu â pholion a'u rhwymo neu'u gorchuddio â bag melyn i rybuddio ymwelwyr am berygl. Perchennog y bedd neu ei g/chynrychiolwyr sy'n gyfrifol am awdurdodi saer maen cymeradwy sydd wedi'i achredu gan BRAMM i ymgymryd ag atgyweiriadau priodol.

Os bydd angen symud ymaith unrhyw Gofeb o safle oherwydd ei bod yn berygl neu le nad oes neb wedi dod i'r golwg i drefnu atgyweiriadau ar ôl cyfnod rhesymol, caiff y Cyngor ymgymryd ag unrhyw waith symud ymaith o'r fath yn unol â darpariaethau Adran 3 (1) o Orchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977. Mae darpariaethau o'r fath yn cynnwys y gofyniad i'r Cyngor ddangos hysbysiad mewn mannau amlwg wrth fynedfeydd y Fynwent, cyhoeddi'r hysbysiad am ddwy wythnos yn olynol mewn papur newydd lleol ac ystyried unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion.

Mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod ei holl Safleoedd yn ddiogel i ymweld â nhw ac i weithio ynddynt. Er mwyn bod yn fodlon bod hyn yn wir mae'n hanfodol bod Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn arolygu Cofebion ar y Safleoedd yn rheolaidd mewn ymgais i osgoi anaf neu farwolaeth i unrhyw un o'i staff neu ymwelwyr.

6.6 Mathau o Gofebion

6.6.1 Caniateir y mathau canlynol o Gofebion yn y Mynwentydd yn amodol ar gydymffurfio â Rheolau 6.6.2 i 6.7 :-

a) Carreg Fedd neu Groes
b) Cyrbau, llwyfannau, ymylon a cherrig mân
c) Ffiol
ch) Coflech Wastad
d) Carreg Fedd i Weddillion Amlosgi
dd) Cofebion i Fabanod
e) Beddnod Pren
f) Croes Bren
ff) Beddnod Dros Dro

6.6.2 Caiff unrhyw gofebion sy'n gorchuddio sawl gofod bedd fod hyd at 7' o led i bob bedd dwbl fan bellaf. Gellir ystyried cofebion lletach mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Cofebion.
Mae hyn yn golygu y gall teuluoedd sydd am gael Cofeb fwy sy'n ymestyn dros sawl bedd o'u heiddo, wneud hynny.

6.6.2 Cerrig Beddau a Chroesau

6.6.2.1 Caniateir cerrig beddau a chroesau ar unrhyw ofod bedd ac eithrio Beddau Coetir ac unrhyw fath penodol arall o fedd y mae'r Rheolau hyn yn gosod cyfyngiad arno ynglŷn â gosod carreg fedd neu groes.

6.6.2.2 Ni ddylai unrhyw garreg fedd na chroes fod dros 5' o uchder na 3' o led gan gynnwys y sylfaen a rhaid iddynt fod o ddyfnder sydd rhwng 3" a 12" (yn y rhan fwyaf o'u hadeiladwaith).
I sicrhau diogelwch yn y Mynwentydd ac i wneud yn siŵr nad ydynt yn tresmasu ar feddau eraill mae'n hanfodol pennu uchafswm maint ar gyfer cofebion newydd.

6.6.3 Cyrbau, llwyfannau, ymylon a cherrig mân

6.6.3.1 Ni chaniateir cyrbau ond ar Feddau Traddodiadol lle y mae darpariaeth ar gyfer y math hwn o gofféu wedi cael ei gwneud (gweler atodlen 1 am restr gyflawn o gofebion a ganiateir yn ôl adran a lleoliad). Gellir gosod ymylon sydd heb fod yn uwch na lefel y ddaear ar unrhyw ofod bedd Hanner Lawnt.
. *Mae hyn yn sicrhau bod y diwyg a ddymunir ar gyfer yr holl adrannau claddu'n parhau.*

6.3.3.2 Rhaid i gyrbau fod rhwng 3" a 12" o uchder a rhwng 3" a 6" o led. Ni ddylai ymylfeini fod yn fwy na 7' x 3' o led.
I sicrhau diogelwch o fewn y mynwentydd ac i wneud yn siŵr nad ydynt yn tresmasu ar feddau eraill mae'n hanfodol pennu uchafswm maint ar gyfer cofebion newydd.

6.3.3.3 Ni ddylai conglfeini setiau cyrbau fod yn fwy na 1' 2" o uchder.
Mae hyn yn sicrhau bod y diwyg a ddymunir ar gyfer yr holl adrannau claddu'n parhau.

6.3.3.4 Dylai cerrig ymylu fod o'r un hyd sydd heb fod yn fwy na 7' x 3' o led ac wedi'u gwneud mewn hydoedd cyflawn a heb fod yn fwy na 5" o ddyfnder a 3" o drwch. Ni ddylai wyneb uchaf yr ymylon fod yn fwy na 1" o drwch a dylid ei osod yn gyfwyneb â'r tir cyfagos.
I sicrhau diogelwch o fewn y mynwentydd ac i wneud yn siŵr nad ydynt yn tresmasu ar feddau eraill mae'n hanfodol pennu uchafswm maint ar gyfer cofebion newydd.

6.3.3.5 Ni chaniateir cerrig mân ar unrhyw fedd nad yw wedi'i amgáu â chyrbau neu ymylon yn unol â'r manylion uchod.
Mae hyn yn sicrhau bod y diwyg a ddymunir ar gyfer yr holl adrannau claddu'n parhau.

6.3.3.6 Ni ddylid adeiladu cerrig llwyfan na gorchudd o fwy na 3 darn sy'n

mesur cyfanswm o 7’ o hyd x 3’ o led.
Mae hyn yn sicrhau bod y diwyg a ddymunir ar gyfer yr holl adrannau claddu’n parhau.

6.6.4 Ffiol

6.6.4.1 Caniateir y math hwn o Gofeb ar unrhyw ofod bedd.

6.6.4.2 Ni dylai ffiol goffa fesur mwy na 1’6” o hyd x 12” o led. Ni ddylai fod mwy na 12” o uchder.
I sicrhau diogelwch o fewn y mynwentydd ac i wneud yn siŵr nad ydynt yn tresmasu ar feddau eraill mae’n hanfodol pennu uchafswm maint ar gyfer cofebion newydd.

6.6.4.3 Rhaid gosod ffiolau’n gadarn ar y gofod bedd.

6.6.4.4 Ar unrhyw Feddau Lawnt neu Feddau Hanner Lawnt rhaid gosod ffiolau wrth ben y bedd yn unig.

6.6.5 Coflech Wastad

6.6.5.1 Caniateir Coflechau Gwastad ar unrhyw ofod bedd.

6.6.5.2 Ar Feddau Lawnt a Beddau Hanner Lawnt rhaid gosod coflechau gwastad wrth ben y bedd yn unig.

6.6.6 Carreg Fedd i Weddillion Amlosgi

6.6.6.1 Caniateir Cerrig Beddau i Weddillion Amlosgi ar unrhyw ofod bedd ar gyfer gweddillion amlosgi ac eithrio’r rheini lle na chaniateir ond coflechau gwastad a ffiolau (gweler atodlen 1 am restr gyflawn o gofebion a ganiateir yn ôl adran a lleoliad).

6.6.7 Cofebion i Fabanod

6.6.7.1 Caniateir Cofebion i Fabanod ar unrhyw ofod bedd yn yr adrannau sydd wedi’u neilltuo i Fabanod a Phlant Marwanedig neu, os dymunir, ar fedd maint llawn lle y mae Hawl Unigryw i Gladdu wedi’i rhoi.
.

6.6.8 Beddnod Pren

6.6.8.1 Caniateir beddnodau pren ar unrhyw Fedd Coetir.

6.6.9 Croes Bren

6.6.9.1 Caniateir croesau pren ar unrhyw ofod bedd.

6.6.10 Beddnod Dros Dro

6.6.10.1 Caniateir beddnodau dros dro ar unrhyw ofod bedd am gyfnod sydd heb fod yn hirach na 12 mis.

6.7 Deunyddiau

6.7.1 Caniateir cofebion wedi'u gwneud o unrhyw ddeunydd naturiol yn y Mynwentydd ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â safon gymeradwy NAMM ac wedi'u gosod ar y bedd gan osodwr BRAMM cofrestredig ar wahân i'r eithriad a ragosodir yn Rheoliad 6.7.2.
Mae hyn yn rhoi mwy o ddewis i alarwyr.

6.7.2 Rhaid gosod croesau pren yn ddiogel yn y ddaear ond nid oes rhaid eu gosod yn unol â dull cymeradwy cenedlaethol.
Nid oes yr un math o berygl yn gysylltiedig â Chroesau Pren ag yr hyn a geir â chofebion traddodiadol eraill.

6.8 Cofebion Anawdurdodedig

6.8.1 Os gosodir unrhyw eitemau anawdurdodedig ar unrhyw fedd neu o'i gwmpas neu unrhyw Gofeb sy'n torri'r Rheolau, tynnir llun o'r bedd a bydd yr eitemau anawdurdodedig yn cael eu symud ymaith a'u storio gan staff y Gwasanaethau Profedigaeth am gyfnod o hyd at 1 mis ar ôl pa bryd y gellir eu dinistrio. Ni roddir unrhyw hysbysiad i berchennog yr Hawl Unigryw i Gladdu.

Yn dilyn Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 ni chaiff unrhyw garreg fedd na chofeb arall gael eu gosod mewn mynwent heb ganiatâd y swyddog a benodir at y diben hwnnw gan yr awdurdod claddu. Os nad oes caniatâd wedi'i roi caiff yr awdurdod claddu symud y gofeb ymaith o'r safle.

Mae'n hanfodol bod yr adrannau claddu yn cael eu cynnal a'u cadw at y safon gytûn er budd ein holl ymwelwyr. Mae'n annheg i un neu ddau o deuluoedd addurno eu beddau ag eitemau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheolau a all achosi gofid i eraill lle y mae dewisiadau eraill ar gael. Nid oes modd bob amser hysbysu perchennog y bedd am yr angen i symud ymaith cofebion anawdurdodedig, yn enwedig os yw wedi symud heb hysbysu'r Swyddfa Weinyddol. Am y rheswm hwn rydym yn cadw unrhyw eitemau a symudir ymaith gan eu dinistrio ar ôl 1 mis heb o anghenraid roi rhybudd.

6.8.2 Mae gan y Cyngor, yn ei rinwedd fel awdurdod claddu, hawl gyfreithiol i adennill y gost a all ddod yn sgil symud ymaith unrhyw garreg fedd neu Gofeb arall gan yr unigolyn a drefnodd eu gosod neu, o fewn dwy flynedd o ddyddiad eu gosod, gan gynrychiolydd personol y cyfryw unigolyn.

Rhaid i bob Cofeb a osodir yn y Mynwentydd gael ei chymeradwyo gan y Rheolwr Cofebion trwy roi trwydded. Os codir unrhyw Gofebion nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheolau neu sydd heb ganiatâd priodol, gellir eu symud ymaith a'u dinistrio.

7. Gerddi Coffa

Mae'r Gerddi Coffa ym Mynwentydd Thornhill a'r Gorllewin yn darparu lleoliad tawel a thangnefeddus i wasgaru gweddillion amlosgi a gadael blodeugedau mewn ardal sydd wedi'i neilltuo.

7.1 Gwasgerir yr holl weddillion amlosgi gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn unol â safonau arferion gorau cydnabyddedig y diwydiant. Gwasgerir gweddillion amlosgi'n llyfn dros ardal lawnt er mwyn peidio â gadael unrhyw olion amlwg.

7.2 Ni chaniateir i unrhyw gofarwyddion, blodeugedau, clychau gwynt nac eitemau eraill gael eu gadael yn neu ar unrhyw un o'r coed na'r llwyni yn y Gerddi Coffa.

7.3 Mae'r borderi rhosod coffa yn y Gerddi Coffa wedi'u hymylu â choflechau gan gynnig lle i flodeuged bach o fewn y cynllun. Ni ddylid gadael unrhyw blanhigion, blodeugedau nac unrhyw eitemau eraill yn yr ardal gwelâu rhosod ei hun nac ar berimedr blaen y Gofeb.

8. Gerddi Coed Coffa

8.1 Darperir y gerddi coed coffa er mwyn i alarwyr brydlesu coflech wrth odre coeden er cof am anwyliaid. Bydd y goflech yn cynnig lle i osod blodeugedau mewn pot.

8.2 Gellir defnyddio ardal fach o gwmpas gwaelod y goeden (sydd heb fod yn fwy na 12"x12") i blannu planhigion bach yn eu tymor. Ni chaniateir unrhyw gwrb na math arall o ymylon o gwmpas gwaelod y coed.

8.3 Ni chaniateir i unrhyw eitemau gael eu gosod yn neu ar y coed a gellir symud ymaith unrhyw eitemau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheolau hyn heb rybudd.

8.4 Bydd y Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw goed yn y Gerddi Coed Coffa. Bydd hyn yn cynnwys amnewid unrhyw goed. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid safle neu rywogaeth unrhyw goed a all gael eu hamnewid.

9. Blodeugedau, Gwastraff ac Ailgylchu

Trwy'r holl Safleoedd a weithredir gan Wasanaethau Profedigaeth Caerdydd peth cyffredin a chyson yw bod blodeugedau yn cael eu gadael yn y gerddi coffa ac ar feddau. Nid yw Gwasanaethau Profedigaeth Caerdydd yn gyfrifol am gyflwr na'r math o flodeugedau a adewir gan ymwelwyr.

9.1 Symudir blodeugedau ymaith o feddau lle y bu claddedigaeth rhwng 14 a 21 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad y claddu. Os bydd unrhyw deuluoedd am symud ymaith a chadw'r blodeugedau eu hunain, fe'u cynghorir i wneud hynny o fewn 14 o ddiwrnodau o ddyddiad y claddu.

9.2 Bydd blodeugedau a adewir yn y Gerddi Coffa yn cael eu symud ymaith i'r mannau caled yn wythnosol. Yr adeg honno, bydd y staff yn cael gwared ag unrhyw flodeugedau sydd, yn eu barn nhw, wedi darfod.

9.3 Ni chaniateir i flodeugedau gael eu gadael yn Ystafell y Llyfr Coffa. Darperir lle i adael blodau a phlanhigion y tu allan yn yr ardal o gwmpas yr adeilad.

9.3 Lle bo modd, caiff unrhyw wastraff a symudir ymaith gan gynnwys blodeugedau gael ei gompostio a gofynnir i ymwelwyr ddefnyddio'r mannau ailgylchu yn y Mynwentydd yn briodol.

9.4 Ni chaniateir i unrhyw eitemau megis clychau gwynt, cardiau, lluniau, baneri ac yn y blaen gael eu rhoi ar unrhyw goeden, mainc na nodwedd debyg yn unrhyw un o'r Safleoedd.

Atodlen 1

Cofebion a ganiateir ym Mynwentydd Thornhill, Pant-mawr, y Gorllewin, Radur a Cathays

MYNWENT THORNHILL

Mynwent gardd lawnt yw Mynwent Thornhill. Rhestrir pob adran isod gan ddangos dimensiynau cofebion o ran uchder, lled a thrwch (o'r blaen i'r cefn).

ADRAN	COFEB A GANIATEIR
ADRANNAU A, D a G	COFLECH I WEDDILLION AMLOSGI: 2" x 18 "x 12" (Sylfaen: 2" x 24" x 12-14")
ADRANNAU B, C, E, F, H, I a J	COFLECH GLADDU BRIDD – UCHAFSWM DIMENSIYNAU 12" x 24" x 18" (Sylfaen: 2" x 3' x 2')
ADRANNAU J a K (BABANOD)	COFEB I FABANOD (I'W HARCHEBU GAN YMHOLIADAU THORNHILL)
ADRAN K (EFYDD)	COFEB EFYDD (I'W HARCHEBU GAN YMHOLIADAU THORNHILL)
ADRANNAU N, P, R ac S	CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12"– CROES BREN (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd – ar N – 2" x 4' x 12 - 18") (Cynheilydd ar ateg – isafswm lled 3'6")
ADRAN Q	COFEB I WEDDILLION AMLOSGI: 12" x 18" x 12" (Sylfaen: 2"x 2'6" x 18")
ADRANNAU T a V	COFEB I WEDDILLION AMLOSGI - 12" x 30" x 12" (Wedi'i gosod ar system rafft sydd eisoes yn ei lle)

MYNWENT PANT-MAWR

Mynwent draddodiadol a gardd lawnt yw Mynwent Pant-mawr. Rhestrir pob adran isod gan ddangos dimensiynau cofebion o ran uchder, lled a thrwch (o'r blaen i'r cefn).

ADRAN	COFEB A GANIATEIR
ADRAN A, C, D a G	ADRAN DRADDODIADOL – YR HOLL GOFEBION SY'N CYDYMFFURFIO A'R RHEOLAU (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN B	COFLECH GLADDU BRIDD – UCHAFSWM DIMENSIYNAU 12" x 24" x 18" (Sylfaen: 2" x 3' x 2')
ADRANNAU E, F	CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12" – CROES BREN (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN H	CARREG FEDD 5' x 3' x 12" (Wedi'i gosod ar system rafft sydd eisoes yn ei lle)

MYNWENT Y GORLLEWIN

Gardd lawnt sydd ag adran hanner lawnt yw Mynwent y Gorllewin. Rhestrir pob adran isod gan ddangos dimensiynau cofebion o ran uchder, lled a thrwch (o'r blaen i'r cefn).

ADRAN	COFEB A GANIATEIR
ADRAN A	CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12" – CROES BREN (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRANNAU B, C, E, F, G, H, I, J, K a P	CARREG FEDD - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" YMYLON NAILL AI O TERRAZZO NEU GONCRIT 3'x 7' NEU SLAB LLWYFAN AR LEFEL Y DDAEAR 3" x 3' x 7' (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN DRADDODIADOL E	ADRAN DRADDODIADOL – CANIATEIR POB COFEB
ADRAN D (HANNER LAWNT)	CARREG FEDD - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" YMYLON NAILL AI O TERRAZZO NEU GONCRID 3'x 7' NEU SLAB LLWYFAN AR LEFEL Y DDAEAR 3" x 3' x 7' (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN D (LAWNT)	CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12" (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN L	CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" – MAE ANGEN GOSODIADAU COFEBION FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12" - CROES BREN (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd - isafswm = 3'6" o led, cynheilydd hyd at – 2" x 3' 6" x 12 - 18")
ADRAN N (BABANOD)	COFEB I FABANOD (I'W HARCHEBU GAN YMHOLIADAU THORNHILL)
ADRAN Q	CARREG FEDD YN UNIG (Wedi'i gosod ar system rafft sydd eisoes yn ei lle)
ADRAN R	COFEB I WEDDILLION AMLOSGI - 12" x 18 " x 12" (Sylfaen: 2"x 2'6" x 18")

MYNWENT RADUR

Mae Mynwent Radur wedi'i rhannu yn ddwy adran. Mae mynwent yr eglwys yn adran draddodiadol sy'n caniatáu pob cofeb sydd o fewn ein rheoliadau.

ADRAN	COFEB A GANIATEIR
MYNWENT YR EGLWYS	ADRAN DRADDODIADOL – POB COFEB O FEWN Y RHEOLIADAU (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN AC	COFLECH I WEDDILLION AMLOSGI 2" x 18" x 12"
ADRANNAU A - B	ADRAN DRADDODIADOL – POB COFEB O FEWN Y RHEOLIADAU (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN D	CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12"- CROES BREN (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN E	COFEB I WEDDILLION AMLOSGI - 12" x 18" x 12"

Codir pob cofeb i fodloni'r safon genedlaethol a osodir gan Gymdeithas Genedlaethol y Seiri Meini Coffa (NAMM), sef 70 kg beth bynnag yw'r system osod a fabwysiedir.

MYNWENT CATHAYS

Mynwent Draddodiadol a Gardd Lawnt yw Mynwent Cathays. Rhestrir pob adran isod gan ddangos dimensiynau cofebion o ran uchder, lled a thrwch (o'r blaen i'r cefn). *Bydd pob adran ar Allensbank Road mewn italig.*

ADRAN	COFEB A GANIATEIR
ADRANNAU A - L ac ADRANNAU O - R	ADRANNAU TRADDODIADOL – POB COFEB O FEWN Y RHEOLIADAU (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRANNAU M, N, T, U, V, W ac Y	CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12", CROES BREN (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN S	ADRAN DRADDODIADOL O RIF BEDD - 3922 CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12" (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 - 18")
ADRAN X, LA, RA a VL	ADRAN DRADDODIADOL – POB COFEB O FEWN Y RHEOLIADAU (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 – 18")
ADRANNAU GA - GS ac RL	CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12" FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12" (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 – 18")
ADRAN EA 1-3107	*ADRAN DRADDODIADOL* (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 – 18")
ADRAN EA 3108-3242	*CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12"* *FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12"* (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 – 18")
ADRANNAU EB, EE ac EG - EQ	*ADRAN DRADDODIADOL – POB COFEB O FEWN Y RHEOLIADAU* (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 – 18")
ADRAN EC	*COFEB EFYDD (I'W HARCHEBU GAN YMHOLIADAU THORNHILL)*
ADRAN ED	*CARREG FEDD YN UNIG – UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12"* *FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12"* (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 – 18")
ADRAN EF 8376 - 9874	*ADRAN DRADDODIADOL – POB COFEB O FEWN Y RHEOLIADAU* (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 – 18")
ADRAN EF 9875 - 9959	*CARREG FEDD YN UNIG - UCHAFSWM DIMENSIYNAU 5' x 3' x 12"* *FFIOL YN UNIG – UCHAFSWM UCHDER 12"* (Mae'r sylfaen ychydig yn fwy na'r bloc) (Cynheilydd: 2" x 4' x 12 – 18")

Codir pob cofeb i fodloni'r safon genedlaethol a osodir gan Gymdeithas Genedlaethol y Seiri Meini Coffa (NAMM), sef 70 kg beth bynnag yw'r system osod a fabwysiedir.